



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio Partneriaethau

Dyddiad: Dydd Gwener, 21 Medi
2012

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 27 MEDI 2012** am **9.30 am** yn **COUNTY HALL, RUTHIN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN YMA O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O FUDDIANNAU

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD YN ÔL CYTUNDEB Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL (Tudalennau 5 - 16)

I dderbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar Orffennaf 12fed 2012 (copi'n atodol).

5 ADOLYGIAD O ADDYSG UWCH YNG NGOGLEDD DDWYRAIN CYMRU
(Tudalennau 17 - 22)

I ystyried adroddiad (copi'n amgaeedig) sy'n gofyn i'r Pwyllgor roi sylwadau ac arsylwadau a fydd yn hysbysu cyflwyniadau Cyngor Sir Ddinbych i'r Panel Adolygu Annibynnol a sefydlwyd i adolygu darpariaeth addysg uwch yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

9:45am

Ar gyfer eitem fusnes 6 bydd y Pwyllgor yn eistedd fel Pwyllgor Craffu dynodedig Trosedd ac Anhrefn yn unol â Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ss.19 a 20

6 PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL (Tudalennau 23 - 46)

I dderbyn adroddiad (copi'n amgaeedig) gan y Rheolwr Diogelwch Cymunedol sy'n nodi'r cynnydd a wnaethpwyd gyda chyflenwi Cynllun Gweithredu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol 2011/12, ac yn gwahodd y Pwyllgor i roi sylwadau ar allu'r Bartneriaeth i gyflenwi gweddill y cynllun statudol tair blynedd.

10:15am

TORIAD

10:45am

7 PROSIECT GWASTRAFF BWYD CANOLBWYNT GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU (Tudalennau 47 - 50)

I ystyried a rhoi sylwadau ar adroddiad (copi'n amgaaedig) gan y Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd Prosiect Gwastraff Bwyd Canolbwynt Gogledd Ddwyrain Cymru ag oblygiadau posibl y newid yn y cynigydd dewisol ar y prosiect.

11:00am

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD LLEOL DIOGELU PLANT CONWY A SIR DDINBYCH (Tudalennau 51 - 96)

I ystyried ac i graffu Adroddiad Blynyddol Bwrdd Lleol Diogelu Plant 2011-12, rhoi arsylwadau ar lywodraeth a threfniadau ariannol y Bwrdd a monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau allweddol Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Fe roddir diweddariad hefyd ar ddatblygiadau a wnaethpwyd yn erbyn y Cynllun Busnes ar gyfer 2012-13 yn chwarter cyntaf y flwyddyn (Ebrill – Mehefin 2012) a gwahoddir y Pwyllgor i wneud argymhellion fel y bo'n briodol.

11:30am

9 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 97 - 116)

I ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi'n amgaaedig) yn ceisio adolygiad o flaenraglen waith y pwyllgor ac yn diweddarau aelodau ar faterion perthnasol.

12:00pm

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

I dderbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL

Dim eitemau.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Brian Blakeley
Ann Davies

Margaret McCarroll
Dewi Owens

Meirick Davies
Alice Jones
Pat Jones

Merfyn Parry
Bill Tasker
Huw Williams

Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda X yn unig)

Ms C. Burgess
Mrs. G. Greenland

Ms. D. Houghton
Dr. D. Marjoram

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd Y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 12 Gorffennaf 2012 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley (Cadeirydd), Alice Jones (Is-Gadeirydd), Pat Jones, Margaret McCarroll, Merfyn Parry a/ac Bill Tasker.

Y Cynghorwyr Ray Bartley, Bobby Feeley a/ac Colin Hughes yn bresennol fel arsylwyr.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Partneriaeth Gymunedol (WT); Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (LR); Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnesau (PG); Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformaid (AS); Swyddog Comisiynu a Gwerthuso (JJ-H); Rheolwr Adfywio Strategol (MD); Rheolwr Rhanbarthol – Taith I Waith (ME); Uwch Swyddog Ewropeaidd a Chyllid Allanol (SM-J); Swyddog Cyllid Rhanbarthol (HW); Rheolwr Hawliadau Cyllid Allanol (AB); Swyddog Cynol Archwilio (RE) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW).

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ann Davies, Meirick Davies, Peter Arnold Evans a/ac Dewi Owens.

Ymddiheuriadau am absenoldeb dderbyniwyd hefyd oddi wrth Cyfarwyddwr Corfforaethol: Demograffeg, Lles a Chynllunio (SE).

2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni fynegwyd unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes.

3 MATERION BRYD Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 31 Mai 2012.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.

5 CYTUNO AR GYNLLUN AR Y CYD AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU CYMORTH IECHYD MEDDWL SYLFAENOL LLEOL

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes (HABS) adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i'r Pwyllgor gael gytuno ar gynllun ar y cyd ar gyfer darparu Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS) yng Ngogledd Cymru, yn ôl gofynion Rhan 1 Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Cyflwynodd HABS Gyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygiad Partneriaeth Cymunedol, BCUHB, (AD:CPD) Wyn Thomas a oedd yn arwain y cynllun ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Theulu (HCFS) a oedd hefyd yn ymwneud â'r cynllun.

Rhoddodd AD:CPD grynodedb o'r adroddiad. Nid oedd y Mesur yn ymdrin â derbyn a thrin pobl yn orfodol, ond yn hytrach yn ymdrin â phrosesau asesu a derbyn gofal a thriniaeth o fewn gwasanaethau iechyd sylfaenol ac eilaidd. Roedd y Mesur i fod i gryfhau rôl gofal sylfaenol gyda'r gwaith o ddarparu gofal a thriniaeth iechyd meddwl effeithiol ac yn nodi'r gofyniad y byddai LPMHSS yn cael ei ddarparu trwy Gymru erbyn Hydref 2012.

Roedd y Mesur mewn pedair rhan:-

Rhan 1 – Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS) (Hydref 2012)

Rhan 2 – Cydlynu gofal a chynllunio gofal a thriniaeth (Mehefin 2012)

Rhan 3 – Asesiadau o gyn-ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl (Mehefin 2012)

Rhan 4 – Eiriolaeth Iechyd Meddwl (Ionawr ac Ebrill 2012).

Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn ymwneud â Rhan 1 o'r Mesur.

Roedd Awdurdodau Lleol ar draws Gogledd Cymru yn cyd-weithio gyda BCU ar y Mesur hwn. Codwyd nifer o gwestiynau ar agweddau amrywiol o'r wybodaeth a gyflwynwyd o fewn yr adroddiad gan aelodau, ac ymatebodd swyddogion fel a ganlyn:-

- Rhoddodd AD:CPD esboniad ynghylch lefelau staffio. Roedd y strwythur eisoes yn ei le yng Nghonwy a Sir Ddinbych i gynorthwyo gyda'r Mesur, ond nid dyna'r sefyllfa yng Ngwynedd. Roedd y canllawiau yn nodi bod angen 1 gweithiwr i bob 20,000 o boblogaeth. Felly nid oedd Conwy a Sir Ddinbych angen nifer fawr o staff newydd gan fod y model angenrheidiol i bob pwrpas eisoes ar fod; fodd bynnag, roedd Gwynedd angen nifer o staff newydd.
- Cadarnhaodd AD:CPD bod ymgynghoriad wedi digwydd gyda rhanddeiliaid amrywiol ynghylch y Mesur yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys rhai defnyddwyr gwasanaeth, ac roedd gweithrediad arfaethedig Gogledd Cymru wedi'i gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad. Roedd y Cynllun drafft a'i weithrediad yn ofyniad deddfwriaeth Llywodraeth Cymru (LIC) ac roedd LIC wedi datblygu model gwasanaeth cenedlaethol ar LPMHSS. Roedd rhai defnyddwyr gwasanaeth yn aelodau o'r Bwrdd Prosiect ac felly byddai modd pasio unrhyw wybodaeth ymlaen o'r cyfarfodydd hynny. Roedd y posibilrwydd o ymgynghoriad ymhellach gyda defnyddwyr gwasanaeth yn cael sylw, ac

- roedd adolygiad llawn ar y gweill. Byddai'r Cynllun ei hunan yn cael ei adolygu yn chwarterol gan Iechyd Meddwl Cydweithredol Gogledd Cymru.
- Nododd Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theulu (HCFS) ei fod o brofiad yn ymwybodol bod defnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn rhan o'r broses gyffredinol o lunio'r cynllun.
 - Roedd pwyslais y Cynllun ar ymyrraeth gynnar, gyda'r nod o atal defnyddwyr gwasanaeth rhag cael eu derbyn i ofal; byddai elfen o unrhyw gynlluniau gofal a luniwyd yn cynnwys cyfranogiad aelodau teulu agos a gofalwyr y defnyddwyr gwasanaeth, yn unol â Rhan 2 o'r Mesur. O bryd i'w gilydd, nid oedd rhai defnyddwyr gwasanaeth am i aelodau o'r teulu fod yn rhan o'r broses. Ar y llaw arall, roedd rhai defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo'u bod yn gallu ymdopi'n well pe byddai aelodau o'r teulu yn cael chwarae rhan weithredol. Roedd y gofal gorau yn broffesiynol, ond hefyd yn cynnwys cefnogaeth teulu gan mai'r teulu fyddai'n sylwi ar newidiadau gyda'r defnyddiwr gwasanaeth, waeth pa mor fach fyddai'r newidiadau hynny'n aml.
 - Nododd AD:CPD y dylai'r Mesur ar bapur liniaru peth o'r pwysau ar feddygfeydd meddygon teulu gan fod y Mesur i fod i gynorthwyo meddygon teulu i gael gafael ar driniaeth iechyd meddwl yn gyflymach. Byddai gweithwyr yn treulio amser o fewn Practis y Meddyg Teulu yn asesu ac atgyfeirio achosion. Fodd bynnag, gallai diffyg lle ym meddygfeydd meddygon teulu fod yn broblem, oherwydd os na allai'r meddygon teulu ddarparu'r gwasanaeth o fewn eu hadeiladau, yna byddai'n rhaid darparu'r gwasanaeth rhywle arall. Byddai gwybodaeth y meddygon teulu a staff y Practis yn gwella o weithio'n agos gyda'r staff a fyddai'n cynnal yr asesiadau. Byddai'r atgyfeiriadau a'r gofynion ar yr LPMHSS a'u gweithgareddau cysylltiol yn cael eu monitro, a phe byddai'r galw'n cynyddu, byddai goblygiadau i'r gwasanaethau. BCU fyddai'n cynnal y monitro ar y cyd gyda'r awdurdod lleol. Mae BCU ar hyn o bryd yn monitro elfennau o fewn Mesurau amrywiol, gan hysbysu LIC o'r canlyniadau.

Nododd yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant bod y Mesur ar y cyfan yn un da. Roedd yn rhagweld y gallai'r Gwasanaeth ar y dechrau adnabod mwy o bobl a fyddai angen y gwasanaethau hyn, yn enwedig o gofio bod pobl yn byw yn hirach, a bod cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael diagnosis o Afiechyd Alzheimer. O ganlyniad, roedd hi'n bryderus ynghylch cost potensial hyn a sut y byddai modd ariannu'r gost ar draws y rhanbarth.

Nododd yr Is-Gadeirydd bod un ymhob pedwar person yn y sir yn dioddef o broblemau iechyd meddwl, ac y byddai ar feddygon teulu angen hyfforddiant ar y cynllun hwn. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cymwysterau gweithwyr a fyddai'n cynnal yr asesiadau, cadarnhaodd yr AD:CPD y byddai'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi gweithwyr iechyd cynradd sef nyrsys seiciatrig, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion cymwys, ayyb, a oedd wedi'u recriwtio o fewn proffesiynau sydd wedi'u diffinio ac yn meddu ar y cymwysterau gofynnol i gynnal yr asesiadau. Bydden nhw'n gweithio mewn meddygfeydd meddygon teulu yn rhan amser, o bosibl un diwrnod yr wythnos i asesu anghenion person. Pe byddai gan berson anghenion iechyd meddwl mwy dwys, bydden nhw'n cael eu hatgyfeirio.

Mewn ymateb i gwestiynau eraill, dywedodd yr AD:CPD:-

- Mewn perthynas â nifer y gwelyau a ddefnyddiwyd o fewn Uned Ablett a oedd yn ward lem lle gallai defnyddiwr gwasanaeth gael gwely am hyd at chwe wythnos, roedd y ffigurau defnyddio yn uchel, 80% ac roedd cryn bwysau ar y defnydd o welyau yno.
- Roedd Unllais yn fudiad gwirfoddol a roddai gyngor, ac a oedd hefyd yn cynnal hyfforddiant i fudiadau yn y sector gwirfoddol. Roedd Unllais hefyd yn delio gyda gwasanaethau eiriolaeth ac yn cefnogi ystod o fudiadau eraill.
- Roedd meddygon teulu yn cael eu hannog i ddefnyddio cyffuriau gwrth iselder yn effeithiol. Roedd gwasanaeth yng Ngogledd Cymru i bobl a oedd yn cymryd cyffuriau ar bresgripsiwn i'w helpu i ddod oddi arnynt yn y pen draw. Ar adegau, rhoddwyd cyffuriau i glaf yn hytrach nag ymyrraeth.

Mynegodd y Cadeirydd bryder ynghylch y cymorth a oedd yn cael ei gynnig i ofalwyr gan ofyn a oedd digon o gymorth yn cael ei gynnig. Esboniodd yr AD:CPD nad oedd y Mesur yn effeithio'n uniongyrchol ar ofalwyr. Er hynny, cyfeiriodd at y Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010, a oedd yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau GIG yng Nghymru ddatblygu Strategaethau ar gyfer Gofalwyr a bod yn rhaid i Weinidogion LIC eu cymeradwyo erbyn diwedd Hydref 2012; dywedodd y dylai hyn sicrhau bod anghenion gofalwyr yn cael eu cyflawni.

Penderfynodd y Pwyllgor :

- (a) yn amodol ar y sylwadau uchod, ei fod yn cytuno gyda'r gofyniad i gael cynllun yn ei le i Ran 1 o'r Mesur, a'r trefniadau i ddatblygu a chytuno ar y cynllun rhanbarthol sydd wedi'i sefydlu;*
- (b) y dylai'r Aelod Arweiniol sicrhau bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn derbyn gwybodaeth ynghylch cynnydd a wnaed o ran gweithredu a monitro'r Cynllun; ac*
- (c) y dylid cyflwyno adroddiad yn rhoi gwybodaeth bellach ar gynnydd o ran gweithredu'r Cyd Gynllun mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn naill ai Mawrth neu Ebrill 2013.*

6 Y BROSES TENDRO A DYFARNU I ARIAN RHAGLEN TEULUOEDD YN GYNTAF O EBRILL 2012

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad Busnes (HBPP) adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau ynghylch y broses tendro a dyfarnu ar gyfer comisiynu gwasanaethau i gefnogi'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn Sir Ddinbych, ac i hysbysu'r Pwyllgor o'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â chomisiynu Projectau Strategol Teuluoedd yn Gyntaf i'r cyfnod ariannol 2012 - 2014.

Rhoddodd HBPP ychydig o'r cefndir i'r broses.

Yn 2011/2012 derbyniwyd arian oddi wrth Cymorth ac roedd y dull ar gyfer dosbarthu'r arian wedi'i benderfynu gan bartneriaid Bwrdd Rhaglen Partneriaethau Strategol Plant a Phobl Ifanc (CYPSPPB); mae Cyngor Sir Ddinbych yn bartner arweiniol ar y bwrdd hwn. Rhoddwyd y mwyafrif o'r arian ar ffurf grantiau bach i grwpiau, gyda nifer ohonyn nhw wedi defnyddio'r arian yn llwyddiannus. Fodd bynnag, roedd 2011/2012 yn flwyddyn bontio rhwng y cyn-arian Cymorth a'r fenter

Teuluoedd yn Gyntaf newydd. Ar y cychwyn cyntaf, hysbyswyd y prosiectau a geisiodd yn llwyddiannus am arian yn 2011/2012 y byddai'r arian yn dod i ben ar ddiwedd Mawrth 2012. O ganlyniad, roedd yr holl fudiadau wedi cael eu hannog a'u cynorthwyo i ddatblygu strategaeth ymadael i'w cynorthwyo i reoli'r newidiadau a fyddai'n eu hwynebu. Roedd Llywodraeth Cymru wedi monitro'n agos yr arian a ddosbarthwyd dros y blynyddoedd, ac roedd rheolau'r fenter Teuluoedd yn Gyntaf newydd yn nodi'n glir ac amlwg mai pwrpas unrhyw arian a ddosbarthwyd yn y dyfodol fyddai mynd i'r afael â thlodi plant a chefnogi teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed. Yn y gorffennol, bu'n anodd iawn monitro nifer mwy o fudiadau a oedd wedi derbyn arian, ac roedd hynny wedi achosi problemau mawr.

Fel y partner arweiniol, gwaith Sir Ddinbych oedd trosglwyddo o le gwariwyd yr arian dros y 5 mlynedd diwethaf i flaenoriaethau newydd. Roedd hyn wedi bod yn waith anodd a dadleuol iawn. Roedd yn golygu na allai rhai mudiadau bellach geisio am arian gan nad oeddynt yn bodloni'r meini prawf. Er mwyn bodloni meini prawf y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, roedd yn rhaid i geisiadau arddangos y byddent yn cefnogi'r gwaith o wireddu Deilliant 4 o Gynllun Integredig y Bwrdd Gwasanaeth Lleol, sef y Cynllun MAWR, sef "bod teuluoedd sy'n agored i newid yn Sir Ddinbych yn cael eu cefnogi i fyw bywyd heb dlodi, lle y gallant ffynnu a bod yn annibynnol."

Roedd CYPSPPB wedi sefydlu Bwrdd Prosiect aml-asiantaeth i reoli a chomisiynu ceisiadau am arian. Roedd wedi penderfynu ar y naw ffrwd ariannu a fyddai'n helpu gwireddu'r deilliant uchod. Roedd y Bwrdd hefyd wedi penderfynu defnyddio proses dendro ar gyfer dyrannu'r arian. Roedd meini prawf eglur o'r hyn oedd yn cael ei wneud a sut oedd yr arian i gael ei ddosbarthu. Rhoddwyd cefnogaeth a gwybodaeth hefyd i ddarparwyr potensial i'w cynorthwyo gyda'r broses dendro.

Derbyniwyd nifer fawr o dendrau, ac yn y pen draw, allan o 9 thema/elfen, comisiynwyd 7 gyda'r rheiny yn eu lle erbyn Ebrill 2012.

Nid oedd modd comisiynu elfennau gwasanaeth Cefnogi Teulu ac Anabledd ar y pryd, gan nad oedd y Panel yn sicr y gallai'r tendrau a dderbyniwyd ddarparu'r hyn oedd ei angen. O ganlyniad, penderfynwyd ail-dendro'r elfen Cefnogi Teulu fel bod modd uwchraddio graddfeydd gwasanaethau gan y byddai'r elfen hon yn parhau am 3-4 blynedd. Roedd arian ar gael ar gyfer cynnal gwasanaethau hyd nes bod gwasanaeth newydd yn ei le ym Medi 2012. Byddai'r arian hwn, a'r cytundeb lefel gwasanaeth ar waith gyda Homestart Sir Ddinbych yn cynorthwyo gyda baich achosion a'r gwaith o weithio trwy'r broses bontio. Byddai cleientiaid cymwys yn cael eu symud i wasanaethau newydd yn dilyn cadarnhad y tendr llwyddiannus. Roedd y broses gyfan wedi bod yn fwy cymhleth na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, ond er hynny, roedd wedi arwain at well gwerth am arian a gwell gwasanaethau i gleientiaid. Roedd y rhaglen gyfan i fod ar waith erbyn Medi 2012.

Mewn perthynas â'r elfen Anabledd, gan fod arian ond ar gael hyd at 2014, roedd y Panel Anabledd yn ddiweddar wedi dod i'r casgliad y byddai modd sicrhau darpariaeth i 4 allan o'r 6 maes gwreiddiol, felly, byddai'r swm a dalwyd yn llai er mwyn cymryd i ystyriaeth y ddarpariaeth interim a ddarparwyd gan Cyfle Barnardos Cymru.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, dywedodd swyddogion:-

- Eu bod yn gweithio gyda'r Rheolwr Partneriaethau a Chymunedau i weld a oedd modd annog y sawl oedd yn gymwys i hawlio cinio ysgol rhad i wneud cais amdano a gweithio hynny i mewn i'r cynllun; byddai hynny wedyn yn arwain at welliant o ran hawlio premiwm.
- Mewn perthynas â'r penderfyniad i beidio â dyfarnu'r tendr 'Cefnogi Teulu' i Homestart, a oedd wedi bod yn siom fawr i nifer o gynghorwyr, rhoddwyd £20,000 i Homestart i barhau i weithio trwy'r chwarter cyntaf, ac roedd hyn bellach wedi'i ymestyn hyd ddiwedd Awst i hwyluso cyfnod yr haf – byddai arian ar gael hyd nes byddai'r tendr newydd ar waith i gynorthwyo gyda'r cyfnod pontio, ac er mwyn peidio amharu neu effeithio ar fywydau teuluoedd sydd angen cefnogaeth.
- Esboniwyd bod Homestart ond yn delio gyda phlant dan 5 oed, ac er ei fod yn gweithredu'n bennaf gan ddefnyddio gwirfoddolwyr, bod y costau cynnal yn uchel iawn. Roedd angen gweithio gyda phlant o ystod oedran eang, ac nid plant dan 5 yn unig. Roedd Homestart wedi cyflwyno tendr am y gwaith y maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd, ac nid am wasanaethau a oedd i'w comisiynu yn ôl manyleb y tendr.
- Pwysleisiwyd bod pob mudiad wedi cael o leiaf blwyddyn o rybudd o'r newidiadau, ac mai nod y penderfyniad i chwilio am dendrau oedd gwella'r gwasanaeth.
- Roedd deilliannau mesuradwy wedi'u dyfeisio i bob un o'r cytundebau, a byddai modd adrodd nôl arnynt i'r Pwyllgor yn y dyfodol. Cytunodd yr HBPP i fynychu Cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn Ionawr 2013 i roi diweddariad i'r Pwyllgor.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:-

PENDERFYNWYD:-

- (a) *yn amodol ar yr ystyriaethau uchod, bod y Pwyllgor yn cefnogi'r prosesau a'r penderfyniadau a argymhellwyd gan Fwrdd Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf fel y cytunwyd arnynt mewn cyfarfodydd arbennig o Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc (CYPSP); a*
- (b) *y dylai'r Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad Busnes adrodd nôl i'r Pwyllgor yn Ionawr 2013 ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu a darparu'r gwasanaethau a gomisiynwyd, ac o hynny, ar ddeiliant 4 o'r Cynllun MAWR.*

7 ADRODDIAD TAITH I WAITH

Cyflwynodd Rheolwr Rhanbarthol Taith i Waith (RM) adroddiad (dosbarthwyd o flaen llaw), gan ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch y Prosiect Taith i Waith. Yn y cyfarfod, dosbarthwyd gwybodaeth bellach i aelodau ar berfformiad y Prosiect, ei broffil gwariant a'i fesurau rheoli risg. Cyflwynodd RM gyd-weithwyr a oedd hefyd yn bresennol:-

- Sian Morgan-Jones, Uwch Swyddog Ewropeaidd ac Ariannu Allanol

- Helen Whitear, Swyddog Ariannol, Taith i Waith ac
- Andy Brackley, Rheolwr Hawlio Arian Allanol

Mae'r prosiect Taith i Waith wedi ei anelu at gefnogi pobl sydd, drwy ystod o anafanteision, yn economaidd anweithgar neu'n ddi-waith. Mae'r prosiect yn cwmpasu ardaloedd y pedwar awdurdod lleol sef Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd (rhan o'r ardal Amcan 1 flaenorol a bellach rhan o'r ardal sy'n gymwys i dderbyn arian Cydgyfeirio) gyda Sir Ddinbych fel y Prif Noddwr. Rhoddodd RM wybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch cyd-destun y prosiect, beth oedd nod Taith i Waith a beth oedd y gobaith o ran deilliannau.

O fewn Sir Ddinbych, roedd £4,160,000 wedi'i sicrhau o Gyllid Cymdeithasol Ewropeaidd a £2,906,000 o arian cyfatebol. Roedd Cytundeb Partneriaeth ar waith i sicrhau fod y prosiect yn cydymffurfio gyda rheolau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

Nod y prosiect yw lleihau anweithgarwch economaidd a gwella lefelau gwaith a lefel sgiliau unigolion. Mae wedi cynorthwyo pobl i ddymchwel rhwystrau a chyflawni targedau o ran cyflogaeth gynaliadwy. Mae gan Taith i Waith gytundeb gyda Chanolfan Byd Gwaith sy'n golygu bod Taith i Waith ar ben y rhestr cynigion o waith.

Mae Taith i Waith yn adrodd i:-

- Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- yn rhan o Gynllun Corfforaethol y Cyngor
- Cynllun Busnes Gwasanaeth
- Rhaglen Gwella ar y Cyd Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru o fewn Sir Ddinbych ac awdurdodau lleol eraill.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, dywedodd swyddogion:-

- bod dylanwad "Rhaglen Waith" yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi golygu bod y prosiect wedi gorfod ail-lunio ei ganlyniadau a'i wariant.
- bod y prosiect hefyd yn cyd-fynd gyda nifer o flaenoriaethau adfywio a blaenoriaethau eraill y Cyngor, e.e. Y Rhyl yn Symud Ymlaen a Strategaeth Dinas Y Rhyl, a thros y misoedd diweddar, bod y prosiect wedi bod yn weithgar yn ne'r sir yn ogystal â'r gogledd.
- er bod elfen o risg barhaol y gallai WEFO hawlio nôl peth o'r ariannu grant, roedd swyddogion WEFO yn awyddus i bwysleisio bod modd lleihau'r risg cyn belled ag y gallai'r Prosiect arddangos gyda data bod holl gamau rhesymol wedi'u cymryd i wireddu amcanion yr ariannu, h.y. darparu canlyniadau gwell i unigolion;
- roedd strategaeth ymadael yn cael ei datblygu ar hyn o bryd yn barod ar gyfer cyfnod atal yr arian yng ngwanwyn 2014, gan fod cryn ansicrwydd ynghylch beth yn union fyddai'n dod yn ei le.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:-

Penderfynwyd:-

- (a) yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Pwyllgor yn fodlon bod cydymffurfio yn digwydd gyda'r holl feysydd a restrir ym mharagraff 3 o'r adroddiad; a
- (b) bod Rheolwr Rhanbarthol Taith i Waith yn adrodd nôl i'r Pwyllgor ym Mehefin 2013 ar hynt y Prosiect o ran darparu canlyniadau cynaliadwy cadarnhaol i drigolion y sir ac i'r Cyngor ei hunan fel prif noddwr y prosiect.

8 CYDWEITHIO RHANBARTHOL AR DDATBLYGIAD ECONOMAIDD

Cyflwynodd y Rheolwr Adfywio Strategol (SRM) adroddiad (dosbarthwyd o flaen llaw) yn amlinellu datblygiad strategaeth i ymdrin â pherfformiad cymharol economi Gogledd Cymru mewn cymhariaeth gyda rhannau eraill o Gymru a'r DU, a sefydliad Bwrdd gan chwe awdurdod unedol y rhanbarth a fydd yn arolygu gweithrediad y strategaeth. Roedd gan economi Gogledd Cymru lefel isel o gynhyrchiant (71% o gyfartaledd y DU), lefelau isel o ran sefydlu busnesau newydd a lefelau uchel o ddiweithdra ymhlith ieuenctid.

Roedd yr adroddiad yn edrych ar sut oedd y chwe awdurdod unedol yn ymwneud â rhanddeiliaid eraill a'r sector gwirfoddol. Roedd cynnig i gael siarter fusnes ac i adfywio'r ymagwedd at fewnffuddsoddiad.

Roedd tair thema wedi codi o'r gweithdai a'r trafodaethau a gynhaliwyd ar draws y rhanbarth, ac roedd cynnig i ganolbwyntio ar y themâu hyn a'u hymgorffori mewn cynllun gweithredu. Dyma'r themâu:-

- Sector yr Amgylchedd ac Ynni
- Gweithgynhyrchu uwch
- "Cyrchfan Gogledd Cymru" – sut i hyrwyddo'r ardal

Tasg gyntaf y Bwrdd fyddai datblygu Cynllun Busnes, ac wrth gyd-weithio, byddai gan y chwe awdurdod lais cryfach ac unedig. Yn nhermau symud y gwaith yn ei flaen, roedd yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cabinet ar 17 Gorffennaf 2012. Roedd y pum awdurdod lleol arall hefyd yn cyflwyno eu hadroddiadau gerbron eu Cabinetau amrywiol.

Byddai Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cynnwys aelodau etholedig o bob awdurdod; roedd hi'n ymddangos mai deilydd y portffolio gyda chyfrifoldeb am adfywio fyddai'r aelod mwyaf priodol i wasanaethau ar y Bwrdd. Byddai disgwyl i bob aelod Cyngor ar y Bwrdd gyfathrebu gwybodaeth ar waith a thrafodaethau'r Bwrdd i'w hawdurdod eu hunain. Pe byddai Cyngor Sir Ddinbych, wrth benderfynu ar ei flaenoriaethau corfforaethol i dymor y Cyngor newydd yn penderfynu bod uchelgais economaidd yn mynd i fod yn un o'i flaenoriaethau, byddai'n debygol o sefydlu bwrdd rhaglen fewnol, ac mae'n bosibl y gallai aelodau craffu wasanaethu ar y bwrdd mewnol hwnnw.

Cododd yr Is-Gadeirydd gwestiwn, sef a oedd modd ystyried Parc Busnes Llanelwy yn llwyddiant. Nododd ei bod yn ymddangos bod hanner yr unedau busnes yn wag

a bod 50,000 metr sgwâr o ofod ar gael i'w osod. Roedd cwmnïau yn wreiddiol wedi symud i'r parc ar ôl cael eu denu gan arian grant, ond pan ddaeth yr arian grant i ben, roedd rhai cwmnïau wedi adleoli. Roedd angen dirfawr i annog cwmnïau preifat i ymsefydlu yn yr ardal, i annog sefydliad a thwf busnesau lleol a hybu cyfleoedd gwaith i bobl ifanc.

Cadarnhaodd y SRM y byddai'r ymagwedd a oedd yn cael ei chynnig yn ymdrin â'r materion canlynol:-

- A oedd adeiladau ar gael ac yn y lleoliadau mwyaf priodol
- A oedd y seilwaith angenrheidiol ar gael
- Roedd ar ddarpar gyflogwyr angen gwybod os oedd bobl ar gael gyda'r sgiliau perthnasol, ayyb.

Cytunodd y Pwyllgor ei fod am weld ymagwedd holistig yn cael ei datblygu at ddatblygiad economaidd, a oedd yn ystyried anghenion lleol, edrych ar seilwaith y rhanbarth, y sgiliau sydd ar gael, a'r cyfleoedd sydd ar gael er mwyn adeiladu arnynt a gwella sgiliau (yn enwedig sgiliau a chymwysterau bobl ifanc). Dylid rhoi mwy o bwyslais yn y dyfodol ar ddenu buddsoddiad sector preifat ac ar gefnogi pobl/busnesau lleol i ystyried sefydlu neu ehangu eu busnesau fel bod ystod llawer ehangach o gyfleoedd ar gael i bobl o bob oedran yn yr ardal. Ymhellach, roedd angen cydbwysedd rhwng mewnfuddsoddiad, uchelgais, blaengaredd a rheoleiddio er mwyn datblygu economi cynaliadwy yn y tymor hir. Roedd teimladau cryf bod rheoleiddio ar hyn o bryd yn mygu busnesau preifat a blaengaredd.

Penderfynwyd yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor yn cefnogi:-

- egwyddorion y ddogfen Uchelgais Economaidd – Strategaeth ar gyfer Newid fel y'u cyflwynwyd gyda'r adroddiad;*
- y cynnig i ffurfio'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a'i gyfansoddiad drafft fel y nodir yn atodiad 2 i'r adroddiad; ac*
- y dylid darparu diweddariad ar y ddogfen Strategaeth ar gyfer Newid a sefydliad y Bwrdd Uchelgais Economaidd Rhanbarthol i'r Pwyllgor yn gynnar yn 2013.*

9 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (dosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu'r Blaen-Raglen Waith Ddrafft sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

Roedd Blaen-Raglen Waith diwygiedig wedi'i dosbarthu yn y cyfarfod yn dilyn newidiadau ers cyflwyno'r fersiwn gynharach. Cytunwyd ar y newidiadau canlynol i'r blaen-raglen waith:-

27 Medi:-

- Prosiect Cydweithredol Rhanbarthol ar Gomerâu Cylch Cyfyng - i'w ohirio hyd gyfarfod diweddarach, dyddiad i'w gadarnhau.
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid – i'w symud i gyfarfod 8 Tachwedd.

8 Tachwedd:-

- Prosiect Gwastraff Bwyd Hwb Gogledd Ddwyrain Cymru - i'w symud i gyfarfod 27 Medi.
- Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant Lleol Conwy & Sir Ddinbych (LSCB) – Y Cydlynnydd Craffu i gadarnhau os oes modd symud hwn ymlaen i gyfarfod 27 Medi.

Roedd Adolygiadau Strategol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i'w cyhoeddi ar y diwrnod hwnnw (12 Gorffennaf 2012), felly awgrymodd y Cydlynnydd Craffu y dylid cynnal Grŵp Gweithdy, fel y cytunwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor, i drafod y canfyddiadau. Cytunwyd ar ddau ddyddiad:-

- 20 Gorffennaf 2012 @ 3.30pm
- 8 Awst @ 9.30am

Dywedodd y Cydlynnydd Craffu wrth y Pwyllgor bod Craffu Partneriaethau yn cyfarfod gyda BCU bob chwe mis i drafod materion, sef 2 neu 3 pwnc fel arfer. Awgrymwyd y dylid trefnu cyfarfod arbennig i ddelio gyda hyn naill ai'n Hydref neu Dachwedd. Cytunodd pawb a oedd yn bresennol ar ddyddiad i'r cyfarfod sef 11 Hydref am 9.30am.

Roedd angen 4 aelod i wasanaethu fel cynrychiolwyr ar y Grwpiau Herio Gwasanaeth fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau Oedolion a Busnes – gwirfoddolodd y Cynghorydd Alice Jones.
- Cynllunio a Pherfformiad Busnes – swydd wag.
- Cyllid ac Asedau – gwirfoddolodd y Cynghorydd Merfyn Parry.
- Adnoddau Dynol Strategol – swydd wag.

Roedd angen cynrychiolydd hefyd i Fwrdd Cydweithredu Conwy a Sir Ddinbych, a gwirfoddolodd y Cynghorydd Pat Jones.

PENDERFYNWYD yn amodol ar y canlynol:-

- (a) Y dylid cymeradwyo'r Blaen Raglen Waith;
- (b) Y dylid penodi'r aelodau a enwir uchod i wasanaethu fel cynrychiolwyr y Pwyllgor ar y Grwpiau Herio Gwasanaeth a Bwrdd Cydweithredu Conwy a Sir Ddinbych.

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR AR BWYLLGORAU

Cadarnhaodd y Cynghorydd Alice Jones ei bod wedi cael ei phenodi'n aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'i bod ar y Panel Gweithredol. Roedd wedi mynychu cyfarfod o'r Grŵp Buddsoddi Strategol (SIG) a oedd wedi trafod y datblygiadau arfaethedig i Ganolfan Hamdden Rhuthun a Llyfrgell Prestatyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.20pm

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad ar gyfer:	Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Dyddiad y Cyfarfod:	Medi 27^{ain} 2012
Swyddog Arweiniol:	Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr Adfywio Strategol
Teitl:	Adolygiad o Addysg Uwch yng Ngogledd Ddwyrain Cymru

1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

Darparu sylwadau i'r Panel sydd wedi cael y gwaith o gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth Addysg Uwch yng Ngogledd Ddwyrain Cymru

2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad hwn?

Ymgysylltu ag adolygiad pwysig gyda'r bwriad o ddylanwadu ar ddarpariaeth Addysg Bellach yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn y dyfodol

3. Beth yw'r argymhellion?

Ystyried sut i ymateb i'r Panel er mwyn dylanwadu ar ganlyniad yr Adolygiad er pennaf lles preswylwyr a chymunedau Sir Ddinbych

4. Manylion yr adroddiad

Ym mis Gorffennaf 2011 fe gyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau gyngor Cyngor Addysg Uwch Cymru ar y strwythur a gymeradwyir i'r sector addysg uwch sydd wedi ei osod allan yn adroddiad *Strwythur Addysg Uwch yng Nghymru yn y Dyfodol*. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys yr argymhelliad y dylai Prifysgol Glyndŵr ddatblygu perthynas strwythurol gadarn ag ystod o golegau addysg bellach o fewn strwythur grŵp dan arweiniad Prifysgolion Aberystwyth a Bangor.

Yn dilyn ystyriaeth o faterion a godwyd yn ystod ymarferiad ymgysylltu ysgrifenedig dilynol, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad i'r Cynulliad ar Dachwedd 29 yn hysbysu Gweinidogion nad oedd wedi derbyn cyngor Cyngor Addysg Uwch Cymru o ran Gogledd Cymru. Yn unol â'r dadleuon a fynegwyd gan nifer o fudd-ddeiliaid, fe ystyriai fod yna achos dros ystyried platfform presennol y ddarpariaeth yng Ngogledd Ddwyrain Cymru'n fanylach a thros archwilio ymhellach yr opsiynau i ddiogelu mwy o gydlyniad rhanbarthol yng nghyflenwad addysg bellach ac addysg uwch.

Roedd Panel Adolygu Annibynnol wedi ei sefydlu dan Gadeiryddiaeth yr Athro Syr Adrian Webb i gynnal adolygiad o Ddarpariaeth Addysg Uwch yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Mae amcanion a graddfeydd amser yr Adolygiad a manylion aelodaeth y Panel Adolygu wedi eu gosod allan yn yr Atodiad i'r adroddiad.

Mae Is-Ganghellor Prifysgol Glyndŵr, yr Athro Mike Scott, wedi cytuno'n garedig i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor ar y Brifysgol a'i swyddogaeth yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

5. Sut mae'r penderfyniad yma'n cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Byddai'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at flaenoriaeth gorfforaethol arfaethedig uchelgais economaidd. Mae cyfran preswylwyr Sir Ddinbych sydd wedi eu haddysgu hyd NVQ lefel 4 yn is na'r ffigwr cyfartal i Gymru ac i ardaloedd awdurdodau cymdogol yn Lloegr. Dylai gwella cyflawniad addysgol, cyflogadwyedd ac enillion preswylwyr y sir felly fod yn ganlyniad allweddol unrhyw strategaeth a ddatblygir i ddelio â'r flaenoriaeth yma. Bydd argaeledd darpariaeth Addysg Uwch yn yr isranbarth yn gritigol i gyflawni canlyniad felly ac i ddylanwadu ar ddarpariaeth y dyfodol drwy ymateb i'r Adolygiad presennol a gwneud cyfraniad mawr tuag at y flaenoriaeth gorfforaethol arfaethedig.

6. Faint fydd o'n ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?

Ddim yn gymwys

7. Pa ymgynghoriadau a gafwyd?

Mae'r Panel Adolygu eisoes wedi cynnal cyfarfodydd efo'r Arweinydd/Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd, y Dirprwy Arweinydd/Aelod Arweiniol dros Addysg, y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gwsmeriaid a'r Rheolwr Adfywio Strategol. Fe hysbyswyd Cadeirydd y panel adolygu o ddiddordeb y pwyllgor yn y mater yma ac mae wedi cadarnhau y bydd unrhyw argymhellion yn cael eu hystyried yn rhan o'r adolygiad.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ddim yn gymwys

9. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Os na fyddai'r pwyllgor yn darparu sylwadau i'r Panel Adolygu mae yna risg na fyddai ei argymhellion i'r Gweinidog yn ystyried barn y Cyngor yn llawn ynglŷn â threfniadau'r dyfodol ar gyfer darpariaeth Addysg Uwch yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

10. Grym i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r grym i'r Cyngor wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried sy'n debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd y'r ardal.

Swyddog Cyswllt:
Rheolwr Adfywio Strategol
Ffôn: 01824 706860

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**WRITTEN STATEMENT
BY
THE WELSH GOVERNMENT**

TITLE **Statement on the Review of Higher Education Provision in North East Wales**

DATE **9 February 2012**

BY **Leighton Andrews, Minister for Education and Skills**

In July 2011 I published the Higher Education Council for Wales' (HEFCW's) advice on the recommended structure of the higher education sector set out in the *Future Structure of Higher Education in Wales* report. This report contained the recommendation that Glyndwr University should develop strong structural relationships with a range of further education colleges within a group structure led by Aberystwyth and Bangor Universities.

After considering the issues raised during the subsequent written engagement exercise, I made a statement to the Assembly on 29 November informing Members that I had not accepted HEFCW's advice with regard to North Wales. In keeping with the arguments expressed by a number of stakeholders, I considered that there was a case for considering more closely the existing pattern of provision in North East Wales and for examining further the options for securing greater regional coherence in the delivery of further and higher education.

I am now able to confirm that an independent Review Panel is to be established under the Chairmanship of Professor Sir Adrian Webb that will undertake the "Review of Higher Education Provision in North East Wales".

I have tasked the Panel with providing an informed, clear and unbiased opinion on what form of HE provision will best service the economic, social and learner needs of the region. Key objectives for the review will be:

- to establish what a comprehensive HE offering in North East Wales should look like;
- to determine the extent to which the existing pattern of HE provision reflects this offering; and
- to recommend new or improved models for delivery that take into account the demographic, social and economic profile of North East Wales and the need for there to be greater coherence in the delivery of further and higher education.

I will expect the Panel to gather and evaluate the best data, research and other evidence available. This will include gathering evidence from local stakeholders, including relevant trades unions and students.

The membership of the Review Panel will consist of individuals who are expert and experienced in their field, have a deep understanding of the breadth of HE provision (from international research to work based learning and widening access), together with an understanding of HE links with further education (FE) and employer needs and demands.

The members of the Review Panel will be:

- **Professor Sir Adrian Webb / Chair.** (Former Vice Chancellor University of Glamorgan; led a five star research facility and Chair of the Wales Employment and Skills Board; has also undertaken a wide range of high profile public service roles in Wales and Whitehall; Chair of the Independent Review of the Mission and Purpose of Further Education in Wales known as the “Webb Review” and member of the “Beecham Review” of the machinery of government in Wales);
- **Professor Mari Lloyd Williams** (Professor and Director of Academic Palliative and Supportive Care Studies and Honorary Consultant in Palliative Medicine at the University of Liverpool; Chair of Tenovus Psychosocial Advisory Committee; HEFCW Council member and member of the McCormick Review of Higher Education (HE) Governance); Past Member of General Medical Council Fitness to Practise Committee; Fellow Learned Society of Wales)
- **Professor Geraint Johnes** (Dean of Graduate Studies and Professor of Economics at the University of Lancaster; leading academic conducts research into labour economics and has a particular interest and expertise in the economics of education; also founding editor of the journal *Education Economics*);
- **John Stephenson** (Former Principal of Coleg Powys, Vice Principal of Beverley College and Head of Technology and Science East Yorkshire College; former Director and Chair of Fforwm and former Chair of the Welsh European Programme Executive).
- **Rt Hon Lord Jones PC** (MP for Alyn and Deeside and East Flint 1970 – 2001; former President Glyndwr University; numerous Parliamentary roles including Parliamentary Under Secretary of State for Wales 1974-79; Shadow Secretary of State for Wales 1983-92; member of House of Commons Chairman’s Panel; prior to becoming an MP was Head of English at Deeside Secondary School);
- **Gary Griffiths** (Airbus UK Head of Apprenticeship Programmes; member of the “Webb Review” Panel; sits on a number of advisory bodies including the Aerospace Sector Skills Strategy Group, Airbus Strategic International Project for Skills, UK Higher Engineering Apprenticeship Group, and SEMTA’s 4 Nations Group and Credit Qualifications Framework Group);

- **Rachel Clacher** (Co-founder and Director of Wrexham based “Money Penny” the largest outsourced telephone answering service in UK and recipient of the Queens Award for Enterprise; regular speaker at business and industry events on business culture, growth and skills requirements); and
- **Gill Atkinson** (Chartered Accountant and Partner/Director of Wrexham based Accountants MD Coxley; actively mentors local businesses; helped launch Wrexham Business Professional group).

The Review Panel will report its findings and recommendations to me by 30 April 2013.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i:	Partneriaeth Pwyllgor Archwilio
Dyddiad y Cyfarfod:	27 Medi 2012
Prif Swyddog/Aelod:	Prif Swyddog Tir Cyhoeddus
Ysgrifennydd yr Adroddiad:	Rheolwr Diogelwch Cymuned (Conwy a Sir Ddinbych)
Teitl:	Partneriaeth Diogelwch Cymuned 2011-2012 Adolygiad Cynllun Gwaith

1. Beth mae'r adroddiad yn sôn amdano?

- 1.1 Cyflwyno manylion ar Bartneriaeth Diogelwch Cymuned Conwy a Sir Ddinbych (CSP) a'u perfformiad wrth drosglwyddo'r Cynllun Gwaith Diogelwch ar gyfer 2011-2012.

2. Beth yw pwrpas llunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Er mwyn ennyn gwylidwriaeth yr Archwiliad ar berfformiad CSP wrth drosglwyddo cynllun gwaith tair blynedd. Bydd hyn yn cefnogi parhad y cynllun gwaith statudol (2011-2014).
- 2.2 Ystyried y wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor gan brisio effeithiolrwydd y gweithredoedd sy'n cael eu trosglwyddo yn y Cynllun Gwaith. Gallu adnabod y gwendidau a phryderon gyda safbwynt i argymhell gweithredoedd i ailgyfeirio'r perfformiad ar gyfer yr ardaloedd hynny.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

- 3.1 ystyried ac yn rhoi sylwadau ar weithredoedd y Bartneriaeth Diogelwch y Gymuned a'i pherfformiad yn ystod 2011-2012 ac wrth drosglwyddo'r cynllun tair blynedd (Atodiad A); a
- 3.2 ystyried crynodeb o berfformiad (Atodiad A), gan bennu a yw'r blaenoriaethau penodol yn gofyn am archwiliad pellach, yn targedu gweithredoedd newydd neu argymhellion i'r Cabinet a'r Cyngor.

4. Manylion yr Adroddiad

Ffocws ar Archwiliad Trosedd ac Anrhefn

- 4.1 Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi hawliau i archwilio CSP Sir Ddinbych, yn lle partneriaid unigol – mae hyn yn cefnogi ar bolisi sy'n ffocysu wrth ddod o hyd i atebion.

- 4.2 Yn ogystal, gall unrhyw aelod o'r Cyngor gyfeirio at fater diogelwch y gymuned leol i'r Pwyllgor Archwilio, ynghyd a'i gael wedi ei ystyried (trwy'r broses Blaen Raglen Waith). Mae darpariaeth newydd wedi cael ei fwriadu er mwyn cefnogi ystyriaethau i drosedd ac anrhefn leol sy'n cael eu codi gan bobl leol neu rhai sy'n gweithio yn Etholaeth y Cyngorydd.
- 4.3 Crëwyd Partneriaeth Diogelwch Y Gymuned er mwyn datblygu a gweithredu strategaethau i leihau trosedd ac anrhefn.
- 4.4 Mae'r CAP wedi sefydlu 5 grŵp trosglwyddo sy'n gallu cwrdd â blaenoriaethau, fel y mae'r tabl isod yn ei ddangos:

Ardaloedd o Flaenoriaeth

Blaenoriaethau	Lleihau trosedd ac effaith ar y gymuned	Lleihau ail-droseddu	Delio ag ASB yn effeithiol ac ymddygiad sy'n effeithio ar yr amgylchedd	Lleihau niwed sy'n cael ei achosi gan alcohol a chamddefnydd sylweddau	Delio a cham-drin domestig yn effeithiol
Canlyniadau	Lleihau trosedd	Lleihau ail-droseddu	Lleihau trosedd sy'n gysylltiedig â lleoedd trwyddedau.	Cynyddu cysylltiadau newydd o fewn y gwasanaeth lleihau niwed.	Monitor o achosion domestig a throsedd domestig.
	Lleihau trosedd treisiol	Lleihau ail-droseddu ymhlith y troseddwy mwyaf ailadroddol	Lleihau argaeledd alcohol ar gyfer pobl ifanc	Cynyddu nifer o bobl sy'n cael eu cyfeirio at driniaeth a lleihau ailgyfeirio	Gwella ymateb dioddefwyr trais domestig gan yr holl awdurdodau sydd ynghlwm
	Monitro troseddau rhywiol eithafol	Lleihau troseddu ymhlith pobl dan 18 oed	Lleihau adroddiadau am ASB	Cynyddu ymyrraeth tîm cymorth alcohol o dan warchodaeth yr Heddlu	Codi ymwybyddiaeth am drais yn erbyn merched a thrais domestig
	Lleihau trais meddiangar difrifol		Cynyddu erlyniadau am drais amgylcheddol	Lleihau camddefnydd alcohol a chyffuriau i 100,000 o breswylwyr	Monitro trosedd domestig treisgar

	Lleihau'r nifer o bobl sy'n dioddef trosedd yn gyson			Lleihau mynediad i ysbytai ar gyfer cyffuriau ac alcohol yn YGC	Darparu cymorth ar gyfer dioddefwyr a phlant
--	--	--	--	---	--

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu ar y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Mae gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn trosglwyddo blaenoriaethau'r Cynllun Mawr.
- 5.2 Mae'r gwaith hefyd yn cyfrannu tuag at flaenoriaethau'r gwasanaeth dros Gynllunio a Diogelwch Cyhoeddus.

6. Faint fydd yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Mae'r gweithredoedd o fewn y Cynllun Gweithredu yn cael grant llawn.
- 6.2 Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn derbyn grant er mwyn trosglwyddo'r Cynllun Diogelwch Cymunedol. A'r Cynllun wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdodau perthnasol sy'n rhan o'r Grŵp Strategaeth CSP.

Gweler cyllid CSP Sir Ddinbych fel a ganlyn:

- (a) Cynllun Gweithredu yn erbyn Camddefnydd Sylweddau - £683,511- Cyllid Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllid hwn wedi'i fwriadu i ddirprwyo gwasanaeth triniaeth ar gyfer camddefnydd sylweddau.
- (b) Cyllid Cymunedau Diogelach - £168,875 – Cyllid Llywodraeth Cymru – wedi'i fwriadu i leihau troseddu ymhlith yr ifanc.
- (c) Cronfa Swyddfa Gartref Trosedd - £42,356 - Cyllid Llywodraeth ganol - wedi'i fwriadu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion lleol.

7. Pa ymgynghoriadau a wnaed?

- 7.1 Ymgynghorodd y CSP yn 2010 am y cynlluniau gwaith 2011-2014 gan ymgynghori gyda'r holl Awdurdodau perthnasol (Cyfarwyddwr Awdurdod Lleol, Gwasanaeth Ddan, Heddlu, Swyddogion Prawf, Awdurdod Iechyd a Heddwesion)

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Dylai'r gost o drosglwyddo'r cynllun gael ei gynnwys gyda'r cyllid allanol sydd ar gael.

9. Pa risgiau sydd a beth allwn wneud i'w lleihau?

- 9.1 Y prif risg ar hyn o bryd yw nad ydym yn gwybod o ble daw'r cyllid diogelwch gymuned ar gyfer 2013-2014 ar hyn o bryd. Bydd cyflwyniad y Comisiynwyr Trosedd yr Heddlu yn Nhachwedd 2012 yn dangos bod Cyllid y Swyddfa Gartref yn cael ei drosglwyddo i'r Comisiynwr yn 2013. Byddwn yn gallu ymgeisio am gyllid, ond bydd y penderfyniad mawr yn eiddo i'r Comisiynwr a bydd rhaid iddo/iddi reoli'r galw yng Ngogledd Cymru. I leihau'r risg bydd rhaid i ni sicrhau bod yr achosion busnes yn gadarn i gyd a bod gan bob project canlyniadau clir.

10. Y gallu i wneud Penderfyniadau

- i Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998
 - ii Deddf Diwygio Heddlu 2002
 - iii Adran 19 a 20 o Ddeddf Heddlu a Chyfiawnder
 - iv Trosedd ac Anrhefn (Trosolwg ac Archwiliad) Rheoliadau 2009
- Erthygl 6.3.5 o Gyfansoddiad y Cyngor

Swyddog Cyswllt:

Rheolwr Cymuned Diogelwch (Conwy a Sir Ddinbych)

Ffôn: 01492 575190



Appendix A

Conwy & Denbighshire Community Safety Partnership 2011/12 Performance Summary

Date: 09/07/2012

Author: Matthew Stewart

Email: matthew.stewart@nthwales.pnn.police.uk

Priorities Areas



Tudalen 30

Priorities	Reduce crime and the impact on the community	Reduce re-offending	Effectively tackle ASB and behaviour adversely effecting the environment	Reduce harm caused by alcohol and substance misuse	Effectively tackle domestic abuse
Outcomes	Reduce crime	Reduce re-offending	Reduce crime linked to licensed premises	Increase new contacts by Harm Reduction service	Monitor domestic incidents and domestic crime
	Reduce violent crime	Reduce re-offending amongst the most prolific offenders	Reduce availability of alcohol to young people	Increase the number of people referred to structured treatment and reduce repeat referrals	Improving the response to victims of domestic abuse by all agencies involved
Gwnaed paratodau ar gyfer ymgynghori â phlant a rhieni ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod 2011-12 ac mae'r ymgynghoriad nawr ar y gweill yn ystod 2012-13. Hefyd, datblygwyd holiadur ar faterion diogelu ehangach i'w ddefnyddio mewn ysgolion: caiff yr holiadur ei ddefnyddio yn ystod 2012-13. Ymgynghorwyd â deunaw tîm staff yn ystod 2011-12 a chafodd eu hymatebion eu bwydo i mewn i'r broses gynllunio busnes ym mis Hydref 2011.

8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

Ddim yn berthnasol

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?

- 9.1 Y risg mwyaf i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant a'r awdurdod lleol yw perygl digwyddiad difrifol sy'n canfod bod y Bwrdd neu un neu fwy o'i asiantaethau partner wedi methu yn eu dyletswydd i ddiogelu plant. Tra nad oes y fath beth a risg sero mewn gofal cydmeithasol, mae gwaith y Bwrdd yn anelu at sicrhau bod asiantaethau partner yn cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu plant. Gellir gweld Cofnod Risg y Bwrdd ar dudalen 40 Atodlen 1, Atodiad 5.

10. Pŵer i Wneud y Penderfyniad

Erthygl 6.3.4(d) Cyfansoddiad y Cyngor

Swyddog Cyswllt:

Bwrdd Lleol Diogelu Plant

Ffôn 07768 043315

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Cyfarfod Bwrdd
Y BLIDP

10 Gorffennaf 2012

Eitem Agenda Rhif 7

Adroddiad Blynyddol

a. Cefndir a Phwrpas

Mae hwn, sef trydydd adroddiad blynyddol Conwy a Sir Ddinbych, yn darparu trosolwg o waith a gweithrediad y BLIDP yn ystod y flwyddyn 2011-2012 ac yn cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad pob un o'r asiantaethau i'r BLIDP.

Mae 'Diogelu Plant, Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004' (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006) yn datgan; 'Mae Byrddau Lleol Diogelu Plant yn atebol am eu gwaith i'r prif asiantaethau cyfansoddol sy'n rhan o'u strwythur.' Mae'r Adroddiad Blynyddol yn darparu'r wybodaeth y bydd yr asiantaethau cyfansoddol ei hangen i alw'r BLIDP i gyfrif.

Yn ogystal mae'r adroddiad blynyddol yn gyfrwng a fydd yn hyrwyddo adrodd a gweithio mwy clos gyda'r partneriaethau Strategol eraill sydd â chyfrifoldebau diogelu.

Yn ogystal, mae 'Gweithio gyda'n Gilydd' yn dweud::

'Dylai pob Awdurdod Lleol dderbyn cyfrifoldeb arweiniol am sefydlu a gweithrediad effeithiol y Byrddau Lleol Diogelu Plant'. Unwaith eto, mae'r adroddiad hwn yn darparu i Awdurdodau Lleol y wybodaeth y mae ei hangen arnynt i graffu ar effeithiolrwydd y BLIDP yn ogystal â darparu gwybodaeth am eu cyfraniad hwy eu hunain iddo.

b. Pwyntiau Allweddol

- Mae aelodaeth gyfredol y BLIDP yn cwrdd â neu'n fwy na'r aelodaeth a awgrymir i BLIDP yn Offeryn Statudol Cymru 2006 Rhif. 1705 (W.167). Mae presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn 73% yn erbyn targed o 75%. Mae presenoldeb yn is-grwpiau'r BLIDP yn is, sef 61%.
- Cyfrannodd pob un ond un o bartneriaid y BLIDP y swm y gwnaed cais amdano a daeth blwyddyn y BLIDP i ben gyda thanwariant o £10k, yn bennaf oherwydd bylchau yn y staffio a'r defnydd a wnaed o falansau a gariwyd drosodd i gyllido rhaglenni hyfforddiant.
- Cafodd deg digwyddiad hyfforddiant amlasiantaeth eu cyflwyno i 486 o gyfranogwyr yn ystod y flwyddyn.
- Llwyddodd pob un o is-grwpiau'r BLIDP i gwblhau mwyafrif y tasgau a osodwyd iddynt a gwnaed cynnydd o safbwynt ymgynghori a chodi ymwybyddiaeth, dwy elfen a fu'n destun pryder yn y blynyddoedd blaenorol.. Gyda'i gilydd, sicrhawyd 84% o'r gweithgarwch o'i gymharu gyda 79% yn 2010-11
- Yn ei hunanasesiad, sgoriodd y BLIDP 67% o'r safonau ar lefel dau neu'n uwch o'i gymharu gyda 38% yn y flwyddyn cynt..

c. Argymhellion:

1. Bod y Bwrdd yn ystyried yr adroddiad blynyddol, yn cytuno ar ei gynnwys neu'n ei ddiwygio yn ôl y gofyn.
2. Bod Aelodau'r Bwrdd yn defnyddio'r Adroddiad Blynyddol i ddarparu gwybodaeth i'w hasiantaethau ac i'w bartneriaethau strategol eraill sydd â chyfrifoldebau diogelu
3. Bod yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei ystyried gan Bwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol Conwy a Sir Ddinbych

Adroddiad Blynyddol BLIDP Conwy a Sir Ddinbych 2011-12



1. Cyflwyniad y Cadeirydd

- 1.1 Mae gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant [BLIDP] swyddogaeth greiddiol i'w chyflawni o ran sicrhau bod lles plant yn cael ei ddiogelu, a phan fydd angen am hynny yn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu rhag iddynt dderbyn niwed arwyddocaol.
- 1.2 Mae'r BLIDP yn dal asiantaethau partner a phartneriaethau i gyfrif wrth iddynt weithredu'r agendau diogelu ac amddiffyn plant. Mae'n gosod safonau ar gyfer eu perfformiad ac yn monitro eu heffeithiolrwydd.
- 1.3 Carwn longyfarch y rhai sy'n ymwneud â diogelu plant yn yr ardal hon am eu hymdrechion a'u harbenigedd yn y gwaith o sicrhau lles plant. Mae'r asiantaethau ar draws y ddau awdurdod yn ymdrechu i ddarparu gwasanaethau ac ymatebion a fydd yn sicrhau fod plant yn cael eu cadw'n ddiogel a phryd bynnag mae hynny'n bosibl oddi mewn i'w teuluoedd naturiol hwy eu hunain. Fodd bynnag, ar brydiau, bydd angen gweithredu i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu.

2. Crynodeb

- 2.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg cryno o'r modd y mae Bwrdd Lleol Diogelu Plant [BLIDP] yn gweithio, gan gynnwys y drefn lywodraethu a'i drefniadau ariannol. Ar ben hynny mae'r adroddiad yn darparu crynodeb o flaenoriaethau allweddol ar gyfer 2011-12 a'i gyflawniadau yn erbyn y blaenoriaethau hynny. Yn y diwedd ceir yr heriau sy'n weddill ar gyfer 2012-13 ac mae blaenoriaethau'r BLIDP ar gyfer y flwyddyn honno wedi eu hamlinellu.

3. Blaenoriaethau allweddol 2011-12

- 3.1 Roedd adroddiadau'r partneriaid i'r BLIDP yn ddefnyddiol o ran codi materion gyda'r Bwrdd, ac roedd y rhain, ynghyd â chanlyniadau'r broses hunanasesu flynyddol, yn dylanwadu ar flaenoriaethau'r BLIDP ar gyfer 2011-12. Yn sgil ymgynghori, pan ofynnwyd i'r partneriaid osod y materion pwysicaf y dylai'r Bwrdd eu hystyried yn ôl eu trefn, arenwyd y blaenoriaethau canlynol ar gyfer 2011-12.
 - a. Trwy ymyrryd cynnar, i rwystro teuluoedd lle mae gan rieni/ofalwyr broblemau cyffuriau ac alcohol, problemau gydag iechyd meddwl neu drais domestig rhag iddynt ddatblygu o fod yn bryderon am ddiogelu i fod yn fater o amddiffyn plant.
 - b. I sicrhau bod canlyniadau gwaith mapio ar deuluoedd sy'n agored i niwed yn cael ei rannu gyda phartneriaid a bod y gwasanaethau a gynllunnir mewn ymateb i'r canlyniadau hynny yn cael eu llunio ar sail persbectif diogelu.
 - c. Trwy ymyrryd cynnar, i sicrhau na fydd plant sy'n arddangos ymddygiad rhywioledig amhriodol yn dod yn bersonau sydd yn gyfrifol am droseddau rhywiol.

d. Sicrhau bod cyfeiriad, gwaith ac adolygiad y BLIDP yn seiliedig ar ymgynghori a chyfranogi gyda phlant, pobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr.

3.2 Dyrannwyd y gweithgarwch i wahanol grwpiau tasg y BLIDP a chawsant eu cynnwys yn y cynllun busnes ar gyfer 2011-12. Gellir dod o hyd i'r cynnydd a wnaeth y BLIDP yn erbyn y cynllun hwnnw yn Adran 7 yr adroddiad hwn.

4. Trefniadau Llywodraethu ac Atebolrwydd

4.1 Mae aelodaeth gyfredol y BLIDP yn cwrdd â neu'n uwch na'r nifer a ragnodir i BLIDP yn Offeryn Statudol Cymru 2006 Rhif 1705 [W.167]. Mae aelodau ychwanegol, nad ydynt yn rhagnodedig, yn adlewyrchu materion lleol yng Nghonwy a Sir Ddinbych, gan gynnwys, er enghraifft, cynrychiolwyr o CAF/CASS a'r NSPCC. Yn ychwanegol at yr aelodau rhagnodedig a awgrymir, mae'r ddau Aelod Etholedig - Gwasanaethau Plant o Gonwy a Sir Ddinbych yn aelodau.

4.2 Yn 2009-10, gosododd Bwrdd y BLIDP darged o geisio sicrhau presenoldeb o 75% yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r raddfa bresenoldeb ar gyfer 2010-11 a 2011-12 bellach wedi ei phennu i gynnwys y cynrychiolwyr statudol yn ogystal â'r dirprwyon. Wedi cyfrifo yn y modd yma roedd presenoldeb yn 2010-1 yn 74%, ac ar gyfer 2011-12, yn 73%.

4.3 Arhosodd strwythur y BLIDP yn sefydlog yn ystod 2011-12 ac fe'i gwelir yn Atodiad 1. Mae partneriaid statudol y Bwrdd yn cael eu cynrychioli yn yr is-grwpiau a cheir cefnogaeth dda gan yr asiantaethau gwirfoddol ac anstatudol. O safbwynt is-grwpiau'r BLIDP mae presenoldeb wedi aros yn weddol statig mewn cymhariaeth gyda 2011-12, gyda'r asiantaethau statudol yn sicrhau presenoldeb cyfartalog o 60% yn 2011-12 a 62% yn 2011-12. Mae presenoldeb fesul asiantaeth i'w weld yn y tabl isod.

Tabl 1: Presenoldeb yn is-grwpiau'r BLIDP yn ôl asiantaeth [yn eu trefn ar sail presenoldeb canrannol]

Presenoldeb 2011-12 Asiantaeth Statudol	Nifer y cynrychiolwyr	Presenoldeb posibl	Gwir bresenoldeb	Presenoldeb canrannol
PHW	1	15	12	80%
CBSC C&FS	10	59	45	76%
Heddlu GC	4	29	21	72%
YJS	3	16	11	69%
Gwasanaeth leuenctid CBSC	2	11	7	64%
CSDd C&FS	10	47	28	60%
BCUHB	11	77	44	57%
Addysg CBSC	2	27	14	52%
Prawf Cymru	2	9	2	29%
Addysg CSDd	1	12	3	25%
Cyfanswm		300	187	62%

4.4 Mae'r BLIDP yn dal ei bartneriaid i gyfrif trwy gyfrwng:

- Archwiliad blynyddol yn erbyn gofynion Adran 28 Deddf Plant 2004.
- Adroddiad blynyddol am eu gweithgarwch diogelu. Gellir dod o hyd i grynodedb o'r materion a ddaeth i'r amlwg trwy gyfrwng yr adroddiadau blynyddol hyn yn Atodiad 4.
- Casgliad cytunedig o ddangosyddion perfformiad diogelu. Gellir dod o hyd i wybodaeth am sefyllfa'r dangosyddion hyn ar ddiwedd y flwyddyn yn Atodiad 3.

Mae'r Bwrdd yn ystyried y wybodaeth sy'n deillio o'r peirianweithiau hyn ac yn gweithredu yn ôl y gofyn.

5 Trefniadau cyllidol

5.1 Mabwysiadodd y BLIDP gyllideb lai, a diwygiedig ar gyfer 2011-12, gan gydnabod y pwysau ariannol sydd ar ei phartneriaid. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn cynnwys digon o gyllid i gwrdd â chostau'r Rheolwr Busnes, cymorth gweinyddol rhan-amser ac arian i weithredu'r Rhaglen Hyfforddiant. Ysgrifennodd y Cadeirydd at y Partneriaid ym mis Hydref 2012 yn gofyn iddynt roi'r swm gofynnol o'r neilltu am y flwyddyn honno a'r rhai sy'n dilyn er mwyn rhoi rhyw radd o sefydlogrwydd i'r BLIDP. Roedd lefel y cyfraniad a ddisgwylid gan bob partner wedi ei gyfrifo trwy ddefnyddio'r fformiwla a ddefnyddiwyd yn 2010-11. Mae Tabl 2 isod, yn dangos y cyfraniad canrannol a'r swm y gwnaed cais amdano gan bob partner yn 2011-12.

Tabl 2: Cyfraniadau'r Partneriaid i'r BLIDP

Partneriaid y BLIDP	Cyfraniad canrannol 2011-12	Cyfraniad Ariannol a geisiwyd 2011-12	
Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych	12.50%	50%	£7,633
Addysg Sir Ddinbych	12.50%		£7,633
Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy	12.50%		£7,633
Addysg Conwy	12.50%		£7,633
Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr		36%	£21,982
Heddlu Gogledd Cymru		11%	£6,714
Gwasanaeth Prawf		3%	£1,832
Cyfanswm		100%	£61,060

5.2 Ar wahân i Wasanaeth Prawf Cymru, cyfrannodd pob asiantaeth y swm y gofynnwyd amdano. Dywedodd Prawf Cymru wrth y BLIDP bod lefel eu cyfraniad wedi ei phennu'n genedlaethol sef taliad cyfwerth â 2.5% o'n gwir gyllideb hyd at uchafswm o £2500, ac nad oedd modd iddynt dalu mwy na £1,527. Golygodd hynny bod cyfraniad Prawf Cymru i'r BLIDP £305 yn llai na'r hyn a geisiwyd.

5.2 Fel cydnabyddiaeth am eu cyfraniadau, derbyniodd y partneriaid:-

- sicrwydd am ansawdd yr ymarfer diogelu trwy archwiliadau amlasiantaeth,,
- gwybodaeth reolaidd am berfformiad
- gwireddu'r cynllun busnes, gan adlewyrchu blaenoriaethau'r partneriaid
- gweithrediad rhaglen hyfforddiant amlasiantaeth. Ni chodwyd tâl ar y partneriaid am leoedd ar y cyrsiau hyn o 2011/12.

- gwybodaeth am y gweithgareddau / heriau oddi mewn i'r asiantaethau unigol yng Nghonwy a Sir Ddinbych o safbwynt cwrdd â'u dyletswyddau yn ogystal â gwybodaeth am berfformiad ar y cyd.
- cyfleoedd ar y cyd i ddylanwadu a datblygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion
- cyfleoedd ar y cyd i sicrhau ymatebion cydwedd, yng Nghonwy a Sir Ddinbych, i faterion yn ymwneud â diogelu sydd yn codi yng Nghymru ac ar draws y DU.

5.3 Daeth blwyddyn y BLIDP i ben gyda thanwariant o £5,777 Yn bennaf, roedd y tanwariant i'w briodoli i wneud defnydd o'r arian a gariwyd trosodd o 2010-11 i gyllido'r rhaglen hyfforddiant [gan gynnwys rhai o gostau'r gynhadledd], ac roedd yn llai na'r disgwyl gan fod swydd y cynorthwydd gweinyddol yn wag am chwe mis. Talwyd costau Adolygiad Achos Difrifol Plentyn 3C o'r arian a roddwyd o'r neilltu ar gyfer y rhaglen hyfforddiant, y hytrach na defnyddio'r gronfa gyfwng, na fu angen ei chyffwrdd, . Cafodd y tanwariant ei gario drosodd i 2012-13. Mae Tabl 3 yn crynhoi gwariant cyllideb 2011-12.

Tabl 3: Cyllideb a gwariant 201-12

Cronfa	Cyllideb 2011-12	Gwir Wariant	Balans 31 Mawrth 2012	Ymrwymadau 2012-13	Balans i'w gario ymlaen
	£	£		£	£
Cronfa Gyffredinol	60,755 ¹	51,159	9,596cr	1,395	8,201 cr
Cronfa Hyfforddiant	8,437	7,743	694 cr	3,118	2,424 db
		Balans	10,288	4,513	5,777 cr
Cronfa Gyfwng	39,719	0		0	39,719 cr

¹Tcodd y Gyllideb ei gosod ar £61,060, ond cyfrannodd Gwasanaeth Prawf Cymru lai na'r hyn y gofynnwyd amdano.

6 Meysydd cynnydd / gwelliant allweddol

6.1. Hyfforddiant

6.1.1 Cynhaliwyd Dadansoddiad Anghenion Hyfforddiant yn Ionawr 2011. Arenwodd yr ymarferiad hwn yr angen am hyfforddiant ym maes Ymddygiad Rhywioledig Amhriodol ac ym maes Plant sy'n byw mewn Teuluoedd lle mae Trais Domestig neu broblemau Cyffuriau, Alcohol neu lechyd Meddwl. Mewn ymateb i'r dadansoddiad anghenion ac er mwyn cydnabod blaenoriaethau'r BLIDP cynhaliwyd dau ddigwyddiad yn ymwneud ag Ymddygiad Rhywioledig Amhriodol i gynulleidfaedd niferus ym Medi 2011 a Mawrth 2012. Cafodd digwyddiad yn ymwneud â 'Magu Plant mewn modd a Gyfaddawdwyd' wedi ei gario drosodd i Raglen Hyfforddiant 2012-13.

6.1.2 Mae Tabl 4 yn dangos bod y BLIDP wedi parhau i gefnogi hyfforddiant am ddiogelu yn y Sector Gwirfoddol gyda 30% o'r rhai a fynychodd yn dod o'r ardal hon. Fodd bynnag, gellir gweld bod y gynrychiolaeth, o safbwynt y ffigyrau presenoldeb cyffredinol, yn wael o du rhai o'r partneriaid.

Tabl 4: Cyrsiau y BLIDP a Phresenoldeb fesul Asiantaeth

Cwrs hyfforddiant	BCUHB	CCBC - CFS	CCBS - Ed	DCC - CFS	DCC - Ed	Voluntary	Probation	YJS	NW Police	CCBC Youth	Private School	Totals
Amddiffyn Plant (6 cwrs)	0	39	3	17	1	81	2	3	0	1	1	148
Ymddygiad rhywiolledig amhriodol	67	19	11	26	9	29	2	13	0	1	2	179
Hyfforddiant Cyfreithiol	20	7	2	0	6	8	0	0	0	0	1	44
Cynhadledd Flynnyddol y BLIDP	23	11	32	7	2	29	0	2	4	1	4	115
Cyfanswm	110	76	48	50	18	147	4	18	4	3	8	486
Canran	23%	15%	9%	10%	4%	30%	1%	4%	1%	1%	2%	100%

6.1.3 Er fod 486 wedi mynychu'r digwyddiadau hyfforddiant, dim ond 295 o ffurflenni arfarnu oedd ar gael i ddibenion coladu. Roedd arfarniad y gynhadledd gyntaf yn ansoddol yn hytrach na meintiol ac o'r herwydd nid yw wedi ei gynnwys yn y ffigyrau arfarnu. Mae'r ffurflen arfarnu yn gofyn pa mor fuddiol oedd y cwrs ac roedd y rhai a gwblhawyd yn dangos bod 91% o'r mynychwyr yn ystyried y cyrsiau yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.

6.1.4 Yn ystod 2011-12, dechreuodd y BLIDP weithio tuag at greu darlun o'r holl staff yn yr ardal y mae hyfforddiant diogelu yn berthnasol iddynt, ynghyd â'r rhai sydd wedi derbyn hyfforddiant asiantaeth sengl. Gofynnwyd i'r holl asiantaethau partner ddarparu gwybodaeth i'r BLIDP a gellir gweld y canlyniadau yn Tabl 5, isod. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan Wasanaethau Tai y ddwy Sir nac oddi wrth Wasanaeth Addysg ac Iechyd Sir Ddinbych. O'r herwydd nid yw'r gwasanaethau hyn wedi eu cynrychioli yn Tabl 5. Ar ben hynny, o blith yr asiantaethau a wnaeth ymateb, bod cydnabyddiaeth na lwyddwyd i gofnodi'r holl hyfforddiant..

Tabl 5: Diogelu Staff a Hyfforddiant

Categori'r Staff	Côd	Nifer staff y mae hyfforddiant diogelu yn berthnasol iddynt	Lleoedd hyfforddiant asiantaethau sengl a weithredwyd
Mewn cyswllt rheolaidd gyda phlant a phobl ifanc	A	5,530	1,503
Yn gweithio'n rheolaidd gyda phlant a phobl ifanc	B	7,063	1,893
Gyda chyfrifoldeb penodol am ddiogelu plant a phobl ifanc	C	1,987	45
Grwpiau cyfunol B&C	B&C	40	112
Cyfanswm		14,620	3,553

6.1.5 Bydd y wybodaeth a gasglwyd drwy'r ymarferiad hwn yn galluogi'r BLIDP i asesu a yw hyfforddiant asiantaethau sengl ac amlasiantaethau yn cwrdd ag anghenion y rhai sy'n gweithio yn y maes. Dechreuwyd trafod greu basdata i reoli'r wybodaeth hon yn ystod y flwyddyn.

6.2 Archwilio a Gwarantu Ansawdd

- 6.2.1 Cynhaliodd y BLIDP ei ail archwiliad blynyddol yn erbyn Adran 28 o Ddeddf Plant (2004). Gofynnwyd i bartneriaid gwblhau'r archwiliad ac arenwi meysydd sydd angen sylw. Hyd yn hyn, nid yw archwiliad 2011-12 wedi ei gwblhau gan nad yw'r holl ymatebion wedi eu derbyn. Yn rhannol, mae hyn i'w briodoli i'r ffaith bod sefydliadau sy'n cwmpasu Gogledd Cymru yn mynegi pryder dilys am fod gofyn iddynt gwblhau tri archwiliad. Oherwydd hynny, mae'r tri BLIDP yng Ngogledd Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd i greu un fformat cytunedig ar gyfer archwiliad Adran 28. O 2013, bydd yr ymarferiad ar sail gydweithredol..
- 6.2.2 Cynhaliwyd archwiliad o'r grwpiau craidd yn ystod 2011-12. Ffocws yr archwiliad oedd ystyried ansawdd y gwaith a wnaed gan y grŵp craidd rhwng y gynhadledd gychwynnol a'r gynhadledd achos gyntaf ac i weld a oedd canllawiau ymarfer y BLIDP mewn perthynas â Grwpiau Craidd yn cael eu dilyn yn gyson. Adroddwyd am y casgliadau i'r Grŵp Datblygu Ymarfer ac mae grŵp tasg yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith yn y meysydd a arenwyd fel rhai y mae angen eu gwella.
- 6.2.3 Gweithredwyd adolygiad rheolaeth fewnol gan Wasanaethau Plant Sir Ddinbych yn sgil restio a dedfrydu dau riant o deulu lle roedd y plant yn cael eu hesgeuluso. Argymhellodd yr adolygiad bod archwiliad o ail-gofrestriadau yn cael ei gynnal. Cwblhawyd hwnnw yn ystod 2011-12 gan Swyddogion Diogelu Plant Conwy a Sir Ddinbych a chafodd y casgliadau eu cyflwyno i Grŵp Rheolaeth Strategol y BLIDP. Yna gofynnwyd i'r Grŵp Datblygu Ymarfer ystyried y casgliadau yn fanwl a llunio cynllun gweithredu i roi'r sylw i'r meysydd y mae angen eu gwella.


6.3 Datblygiad Ymarfer

- 6.3.1 Yn sgil dadansoddiad o gyfeiriadau a wnaed yn 2012-11, datblygodd y Grŵp Datblygiad Ymarfer gyflwyniad y gallai asiantaethau ei ddefnyddio i wella ansawdd eu cyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant.
- 6.3.2 Cafodd y 'Fframwaith ar gyfer Dadansoddi', sef erfyn y gall asiantaethau ei ddefnyddio pan fyddant yn pryderu ynghylch plentyn, ei ddatblygu yng Nghonwy ac fe'i dosbarthwyd ar draws ardal y BLIDP gyda chefnogaeth hyfforddiant.
- 6.3.3 Darparodd y Grwpiau Tasg Ymddygiad Rhywioledig Amhriodol [YRhA] a Thrais Domestig yr adroddiadau cyntaf i'r Grŵp Rheolaeth Strategaeth ynghylch y plant yr effeithiwyd arnynt gan y newidiadau hyn. Mae gwaith y ddau Grŵp Tasg yn mynd yn ei flaen i 2012-13.
- 6.3.4 Swyddogaeth y Grŵp Datblygiad Ymarfer yw ystyried gwybodaeth am berfformiad gan bartneriaid ac arenwi a rhoi sylw i faterion ymarfer sydd yn cael sylw penodol yn y wybodaeth honno. Yn ystod 2011-12 mae'r partneriaid wedi parhau i wella ansawdd a sylwedd y wybodaeth am berfformiad a ddarperir ganddo ac o'r herwydd yn galluogi'r grŵp i gyflawni ei swyddogaeth yn fwy effeithiol.

6.4 Ymgynghori a chyfathrebu

- 6.4.1 Cafodd tudalennau'r We y BLIDP eu diweddarau fel eu bod yn cynnwys adrannau gwahanol i weithwyr proffesiynol, rhieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc. O'i gymharu gyda 2010-11 bu 45% o gynnydd yn nifer y sesiynau ar y wefan yn ystod 2011-12 ac mae'r defnydd wedi cynyddu'n gyson ers 2009-10. Mae Siart 1, isod, yn dangos y cynnydd yn y defnydd.

Siart 1: Sesiynau defnyddwyr tudalennau'r We y BLIDP



- 6.4.2 Cafodd sawl erthygl i'r Wasg eu cynhyrchu a'u cynnwys yng nghylchlythyr NYAS a phapur lleol Sir Ddinbych . Lansiodd ei dudalen Facebook ei hun gan y BLIDP yn ystod y flwyddyn a chreodd honno ddigon o ymateb 'hoffwyd' i greu gwefan Facebook ar wahân .
- 6.4.3 Cafodd cynhadledd gyntaf y BLIDP ei chynnal a chafwyd cyfraniadau gan ddau siaradwr amlwg a chynhaliwyd sawl gweithdy. Bu'r adborth yn gadarnhaol iawn.
- 6.4.4 Cynhaliwyd digwyddiad ar y cyd rhwng Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy a Sir Ddinbych / Y Cyngor Sector Gwirfoddol a 'Diogelu yn y Sector Gwirfoddol ' ei gynnal ar 6 Mawrth 2012. Yn ogystal â rhoi gwybod i'r rhai a'i mynychodd am y BLIDP cafwyd cyfle i ymgynghori gyda'r sector gwirfoddol am bryderon ynghylch diogelu. Cafodd y digwyddiad gefnogaeth dda a chafwyd adborth cadarnhaol.
- 6.4.3 Trefnodd Conwy raglen ymgynghori newydd ar gyfer teuluoedd oedd ar y rhestr yn ystod y flwyddyn ac arianwyd trefniadau i ymgynghori gyda theuluoedd sydd ar y rhestr yn Sir Ddinbych. Rhoddodd yr Is-grŵp Ymgynghori a Chyfathrebu ystyriaeth i ganlyniadau ymarferion ymgynghori CYPP Conwy a Sir Ddinbych, gan ychwanegu at y cysylltiadau rhwng y partneriaethau a'u dealltwriaeth o bryderon ynghylch diogelu plant. Cafodd holiadur ynghylch yr agenda diogelu ehangach ei ddatblygu ar y cyd yn y cyfamser gan y BLIDP a'r CYPP. Bydd yr holiadur yn cael ei ddefnyddio yn yr ysgolion yn ystod 2012-13.
- 6.4.4 Ymgynghorwyd gyda deunaw o dimau, gan gynnwys timau o'r Awdurdodau Lleol, lechyd, yr Heddlu a'r sector Gwirfoddol / Trydyddol. Cafodd y canlyniadau o'r holl ymarferion ymgynghori a gynhaliwyd cyn mis Hydref 2011 eu bwydo i mewn i gynnwys y diwrnod cynllunio busnes.
- 6.4.5 Derbyniwyd un 'post-it/ share-it' yn ystod y flwyddyn. Bu'r post-it yn gyfrwng i ddwyn sylw'r BLIDP at yr arfer da rhwng gweithwyr cymdeithasol a bydwagedd yn Ysbyty Glan Clwyd.

6.5 Adolygiadau Achosion Difrifol (AAD)

6.5.1 Mae Is-bwyllgor Achosion Difrifol y BLIDP yn rheoli'r broses Adolygu Achosion Difrifol ac yn monitro unrhyw gynlluniau gweithredu sy'n deillio ohoni Yn ogystal, deuir ag Adolygiadau Rheolaeth Mewnol [ARhM] perthnasol i sylw'r Is-bwyllgor ac mae cynlluniau gweithredu sy'n codi o'r ARhM hefyd yn cael eu monitro. Hefyd, yn ystod y flwyddyn, fe gytunwyd i gyflwyno proses newydd ar gyfer 'Achosion o Ddiddordeb Arbennig' yn i ddiben edrych ar achosion nad ydynt yn cwrdd â meini prawf yr Adolygiadau Achosion Difrifol.

6.5.2 Yn ystod 2011-12:

- Daethpwyd â thrafodaethau ynghylch Adolygiad Achos Difrifol mewn perthynas ag amlynciad posibl methadon gan blentyn dau ddiwrnod oed [Plentyn 3C] i ben yn ystod y flwyddyn. Ni phriodolwyd unrhyw fethiant i'r drefn amlasiantaeth o weithio, ond cytunwyd ar gynllun gweithredu i wella ymarfer. Mae pob un ond un o'r elfennau yn y cynllun gweithredu wedi eu cwblhau. Mae gwaith ar yr elfen sy'n weddill yn mynd rhagddo, sef adolygu fformat adroddiadau i gynadleddau diogelu plant.
- Dechreuwyd ar un adolygiad yn ystod y flwyddyn. Gwrthrych hwnnw yw hunanladdiad person ifanc [Plentyn 4D]. Roedd yr adolygiad ar Blentyn 4D yn cwrdd â meini prawf yr Adolygiad Achos Difrifol, ond mae'n cael ei ddefnyddio fel peilot i Broses Ymarfer Plentyn arfaethedig Llywodraeth Cymru.

6.6 Panel Adolygu Marwolaeth Plentyn

- 6.6.1 Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r panel i drafod marwolaeth plant yng Nghonwy a Sir Ddinbych rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012. Cafodd cyfanswm o 20 marwolaeth eu trafod. Mae hunanladdiad person ifanc yn destun Adolygiad Achos Difrifol, er bod yr adolygiad yn cael ei gynnal fel peilot i Broses Ymarfer Plentyn arfaethedig Llywodraeth Cymru. Ni arenwyd unrhyw bryderon diogelu mewn perthynas ag unrhyw un o'r achosion eraill.

Tabl 6: Plant a drafodwyd yn y Panel Adolygu Marwolaeth Plentyn 2011

Achos marwolaeth	Nifer	Sylwadau
Cynamseredd eithafol (llai na 30 wythnos)	7	
Haint	1	Llid yr ymennydd
Gwaeledd terfynol	4	
Abnormalrwydd genedigol difrifol	2	
Damwain	1	Cwmp o uchder
Damwain Ffordd	3	Yn cynnwys dau blentyn o'r un teulu yn yr un car
Hunan-laddiad	1	Testun AAD /Adolygiad Ymarfer Plentyn
Marwolaeth annisgwyl (arall)	1	
Cyfanswm	20	

7. Cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes

7.1.1 Mae diweddariad Diwedd Blwyddyn y Cynllun Busnes ynghlwm yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn. Mae Tabl 7 yn dangos nifer a chanran y gweithgareddau a gwblhawyd ychydig yn hwyr / lle nad oes unrhyw gynnydd wedi ei wneud ar ddiwedd y flwyddyn, ac yn cymharu cynnydd 2011-12 gyda pherfformiad y flwyddyn cynt. .

Tabl 7: Cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes

Statws RAG	Statws	Cynllun Busnes 2009-10		Cynllun Busnes2010-11		Cynllun Busnes2011-12	
		Nifer gweithgareddau	Canran gweithgareddau	Nifer gweithgareddau	Canran gweithgareddau	Nifer gweithgareddau	Canran gweithgareddau
Gwyrdd	Cwblhawyd	27	43%	23	79%	26	84%
Ambr	Dim cynnydd / ychydig yn hwyr	15	28%	5	17%	4	13%
Coch	Dim cynnydd / ychydig yn hwyr	17	29%	1	4%	1	3%
Cyfanswm		58	100%	29	100%	31	100%

7.1.2 Gweithgareddau na chawsant eu cwblhau yn ystod y flwyddyn:

- Nid yw'r Polisi Diogelu Cynhwysfawr wedi ei adolygu gyda'r partneriaid
- Mae polisi cwynion wedi ei lunio ond mae'n cael ei ail-ddrafftio ar ffurf symlach
- Ni chynhaliwyd cyrsiau hyfforddiant ar 'Rhieni a Gyfaddawdwyd' a 'Dysgu ar sail Adolygiadau Achosion Difrifol' ac maent wedi eu cario drosodd i 2012-13.
- Mae'r gwaith o lunio basdata o staff y mae arnynt angen hyfforddiant amlddisgyblaeth wedi ei ddechrau ond mae angen gwneud rhagor o waith arno cyn y bydd yn ddefnyddiol.

Ni wnaed unrhyw gynnydd tuag at ail-sefydlu'r cyfarfodydd rhyngwyneb iechyd meddwl pobl ifanc / plant. Bu oedi gyda'r gwaith oherwydd presenoldeb sâl.

7.1.3 Mae'r holl weithgareddau anghyflawn wedi eu cario drosodd i gael rhagor o sylw yn 2012-13.

8. Effeithiolrwydd y BLIDP

8.1 Cynhaliodd y Bwrdd ei hunanasesiad blynyddol ym mis Hydref 2011, gan ddefnyddio Erfyn Hunan-asesiad a Gwelliant [EHSG] Llywodraeth Cymru ar gyfer BLIDP] Mae'r erfyn hwn yn asesu perfformiad yn erbyn pum dimensiwn:

- sefydlu cyfeiriad strategol y Bwrdd;
- sefydlu trefn lywodraethol effeithiol
- adeiladu cynhwysedd;
- gweithredu allbynnau, a
- gwella deilliannau diogelu i blant.

Oddi mewn i ddimensiynau EHSG mae 21 o safonau ac mae i bob safon fandiau graddedig o gyrhaeddiad. O 0 i 3. Mae'r BLIDP yn sgorio ei hun o safbwynt pa fand y mae'r perthyn iddo, gan ddyrannu sgôr ffracsiynol, fel sy'n berthnasol os mai dim ond yn rhannol y cyrhaeddir y band.

8.2 Mae'r sgôr cyffredinol, mewn cymhariaeth â sgôr blynyddoedd blaenorol, yn erbyn yr EHSG yn cael ei ddangos yn Tabl 9 isod. Roedd y newidiadau yn y sgoriau yn erbyn y safonau fel a ganlyn:

- Yn 16 o'r 21 safon, roedd sgôr y BLIDP yn well na'i sgôr cymharol yn 2010..
- Mewn 3 o'r safonau, sef y rhai ar gyfer cynllunio busnes, recriwtio diogel a hyfforddiant roedd y sgôr yr un fath â 2010.
- Mewn 2 o'r safonau, sef adnoddau a hysbysu'r gymuned, roedd y sgôr yn is na'r un cyfatebol yn 2010.

Tabl 8: Sgoriau yr Erfyn Hunan-asesu a Gwelliant

	2009	2010	2011
Cyfanswm sgôr	23	33.25	41.5
Canran y sgoriau yn Band 2 neu'n uwch	10%	38%	67%
Pa mor hyderus ydych chi ynghylch y rhagolygon y gall y BLIDP ddod yn fwy effeithiol? (ymateb grŵp)	Heb ei gofnodi	Cymedrol	Cymedrol

9 Risg

9.1 Mae'r Bwrdd yn adolygu ei gofrestr risg yn rheolaidd a chytunwyd ar gofrestr ddiwygiedig ar ddiwedd 2011-12. Ychwanegwyd tri risg newydd. :

- Y risg sy'n berthynol i gydweithrediad gwael rhwng is-grwpiau neu ddiffyg eglurder ynghylch tasgau allweddol / deilliannau llesteirio cynnydd.
- Y risg sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd yn methu dangos deilliannau gwell i blant
- Y risg y gellir amharu ar y cynnydd yn erbyn cynllun busnes y BLIDP oherwydd bod yr agenda integreiddio a chydweithredu yn dwyn amser y BLIDP fel nad yw'r gallu rhoi sylw digonol i'w weithgareddau allweddol a gweithrediad ei gynllun busnes.

Mae trefniadau wedi eu gwneud i reoli yr holl risgiau.

9.2 Mae'r risg sy'n berthynol i Adolygiad Achos Difrifol ddatgelu methiant yn y drefn weithio amlasiantaeth wedi bod ar Gofrestr Risg y BLIDP ers i'r gofrestr gael ei sefydlu. Mae'r risg dan sylw yn dra phwysig oherwydd natur ddifrifol yr effeithiau y byddai methiant o'r fath yn ei gael a'r posibilrwydd parhaol, ar waethaf pob ymdrech a wneir, y gallai'r fath beth ddigwydd.

10 Blaenoriaethau ar gyfer 2012-13

10.1 Trafodwyd y blaenoriaethau ar gyfer 2012-13 yn ystod Diwrnod o'r Cartref y BLIDP, gan roi ystyriaeth i:

- materion a ddaeth i'r amlwg trwy adroddiadau blynyddol y partneriaid a'r partneriaethau i'r BLID
- canlyniadau'r ymarferiad EHSG [paragraff 8] ac archwiliad Adran 28 [paragraff 6.2.1],
- ymgynghori gyda staff,
- a materion agodwyd gan gynrychiolwyr yn ystod y dydd.

Nid oedd Tai ac Addysg yn cael eu cynrychioli yn ystod y Diwrnod o'r Cartref.

10.2 Cynhaliwyd ymarferiad pleidleisio yn y fan a'r lle a'r grŵp yn cytuno arnynt fel y blaenoriaethau ar gyfer y BLIDp yn 2012-13. Yn sgil trafodaethau pellach, cytunwyd i ddwy flaenoriaeth o 2011-12 gael eu cario ymlaen i 2012-13. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer 2012-13 yn cael eu rhestru isod:

- Ymddygiad Rhywiol Amhriodol - rhwystro plant rhag iddynt arddangos ymddygiad rhywiol amhriodol a dod yn gyfrifol am droseddau rhyw, a sicrhau bod plant sydd dan risg o niwed yn cael eu hamddiffyn.
- Cyflogaeth ddiogel – sicrhau bod sefydliadau oddi mewn i'r BLIDP yn cwrdd â'r safonau gorau o safbwynt cyflogaeth ddiogel.
- Trothwyon - i sefydlu trothwyon eglur a chytunedig ar gyfer ymyrryd, sef rhai sy'n ddealladwy i bawb ac yn dderbyniol ar draws ardal y BLIDP.
 - Partneriaethau – sicrhau bod y partneriaethau sydd â chyfrifoldebau diogelu yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant.

A, gan barhau o 2011-2

- I rwystro teuluoedd lle mae rhieni / gofalwyr â phroblemau cyffuriau ac alcohol, iechyd meddwl neu drais teuluol rhag iddynt droi o fod yn faterion diogelu i fod yn faterion amddiffyn plant.
- I sicrhau bod cyfeiriad, gwaith ac adolygiad a chyfranogi gyda phlant, pobl ifanc, eu rhieni a gofalwyr.

10.3 Blaenoriaethau'r BLIDP sydd wedi rhoi cyfeiriad i'w Gynllun Busnes ar gyfer 2012-13.

STRWYTHUR Y BLIDP 2011-12

Atodiad1

**Grŵp Adolygu
Gweithdrefnau
Amddiffyn Plant
Cymru Gyfan**

Cadeirydd:
Leighton Rees
Is-gadeirydd:
Rachel Shaw

Bwrdd y BLIDP

**Is-bwyllgor
Adolygu
Achosion
Difrifol**

Cadeirydd:
Rachel
Shaw **Is-
gadeirydd**
Jenny
Williams

**Grŵp Protocol
gogledd Cymru**
Cadeirydd:
Rachel Shaw

**Y Grŵp
Rheolaeth
Strategol**

**Y Rheolwr
Busnes**

Tudalen 72

**Is-bwyllgor
Cyfathrebu**

Cadeirydd:
Simon Williams
Is-gadeirydd
Anona Weir

**Is-bwyllgor
Hyfforddiant a
Datblygiad y
Gweithlu**

Cadeirydd: Sue
Walls &
Catherine Mason
Is-gadeirydd:
Dave Dullighan

**Is-bwyllgor
Archwilio a
Sicrhau
Ansawdd**

Cadeirydd
Alwen
Ingledew
Is-gadeirydd:
Sue Trehearn

**Is-bwyllgor
Datblygiad
Ymarfer**

Cadeirydd: Kate
Devonport
Is-gadeirydd
Sarah
O'Mahoney

**Panel
Adolygu
Marwolaeth
Plentyn**

Cadeirydd:
Dr Lindsay
Groves

Materion a ddaeth i'r amlwg o Adroddiadau'r Partneriaid a'r Partneriaethau

Materion/ blaenoriaethau'r Partneriaid a gynhwyswyd yn y trafodaethau ar gyfer cynllun busnes 2012-13

Materion allweddol yn deillio o adroddiadau blynyddol y partneriaid i'r BLIDP
--

- Pobl ifanc dan glo
- Ymddygiad rhyw niweidiol
- Pobl ifanc sy'n cynrychioli risg i blant ifanc eraill
- Pobl ifanc dan glo sydd wedi cyflawni troseddau rhyw
- Graddfa uchel o gyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant
- Y trothwyon ar gyfer ymyrryd yn uwch – effaith ar y gwasanaeth GCA
- Yr angen i wella ansawdd asesu craidd a gweithgarwch
- Ymwybyddiaeth o gydymffurfio a chadw at brotocolau y BLIDP
- Gwell cydweithio i wireddu blaenoriaethau a rennir
- Gorchmynion Amddiffyn yr Heddlu - gwahaniaeth yn yr ardaloedd 'canolog'
- Gwiriadau CRB i lywodraethwyr
- Effeithiau iechyd meddwl gwael ar blant
- Iechyd meddwl gwael rhieni nad yw'n cwrdd y trothwy ar gyfer y gwasanaethau IM
- Pwysau ar dai i deuluoedd digartref
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig: diogelu ymwybyddiaeth a hyrwyddo
- Swigen o ddyled yn y farchnad dai a all greu pwysau ar bawb

Materion allweddol yn deillio o adroddiad y partneriaethau i'r BLIDP

- Anafiadau i blant
- Iechyd rhywiol
- Y ffyrdd gorau o sicrhau cysylltiadau cryfion ac atebolrwydd gyda'r BLIDP

Materion / Blaenoriaethau y Partneriaid / Partneriaethau yr adroddwyd amdanynt yn Rhagfyr a Mai
(Cafodd cyfarfod Mai ei ail-drefnu a'i gynnal ym Mawrth /cyfarfod diwedd blwyddyn y Bwrdd)

CYPP Conwy

- Datblygu proffil gwasanaeth ynghylch recriwtio amddiffyn plant yn benodol ar gyfer y sector gwirfoddol
- Datblygu 'Canllaw Strategaeth Diogelu i Wirfoddolwyr'.
- Codi ymwybyddiaeth am amddiffyn plant trwy gyfrwng digwyddiad 'Cyfnewid Dysgu'; darparu digwyddiad rhyngweithio i 'sefydliadau a hyrwyddo'r Canllaw Strategaeth Diogelu i Wirfoddolwyr
- Maes Blaenoriaeth 20.2 – Bod gan bobl ifanc yn ein cymunedau sy'n agored i niwed fynediad i ofal a chefnogaeth briodol i'w galluogi i fyw yn annibynnol ac yn ddiogel.
- Maes Blaenoriaeth 22 – Bod plant a phobl ifanc yng Nghonwy yn rhydd oddi wrth ddamweiniau ac anafiadau.

Cynllun Mawr Sir Ddinbych:

- Lleihau nifer yr anafiadau i blant
- Codi ymwybyddiaeth o gam-drin ac esgeulustod a lleihau'r risg o anafiadau /marwolaeth pobl sy'n agored i niwed
- Mynd i'r afael yn effeithiol â thrais domestig
- Atal cynnydd mewn materion diogelu plant
- Ffurio cynllunio'r gwasanaeth diogelu.

NSPCC

- y rhai sydd wedi dioddef esgeulustod
- cam-drin corfforol mewn teuluoedd risg uchel (y teuluoedd hynny sydd ag oedolion treisgar a phroblemau gyda chamddefnydd o alcohol a chyffuriau neu rai sydd â phroblemau iechyd meddwl
- y rhai sydd yn dioddef camdriniaeth rywiol
- plant llai nag un oed
- plant anabl
- plant o rai cymunedau penodol du neu leiafrif ethnig [BME]
- plant y gofelir amdanynt
- creu a rhoi ar waith y gwasanaethau sy'n fwyaf effeithiol i ddiben amddiffyn plant
- darparu cymorth a chefnogaeth i oedolion a gweithwyr proffesiynol sy'n ymboeni am blentyn
- gweithio gyda sefydliadau i sicrhau eu bod yn amddiffyn plant yn effeithiol – a herio'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny
- ymgyrchu ynghylch newidiadau i ddeddfwriaeth, polisi ac ymarfer er mwyn sicrhau bod plant yn ddiogel

Addysg:

- Yr her sy'n berthynol i weithrediad hyfforddiant diogelu i amrywiaeth o grwpiau : llywodraethwyr ysgolion, hebryngwyr croesfannau ysgol, gwasanaethau cysylltiedig ayb.

- Anawsterau mewn perthynas â gwiriadau CRB, newidiadau i'r broses a'r defnydd o ddisgresiwn y Prif Gwnstabl
- Pryder parhaol ynghylch rhieni y mae eu hiechyd meddwl yn effeithio ar eu gallu rheiniol.

Heddlu Gogledd Cymru: gwaith amlasiantaeth ynghylch:

- Atal troseddau rhywiol yn erbyn plant a phobl ifanc.
- Gwtogi nifer yr achlysuron pan fydd plant y mynd ar goll o'u cartrefi neu sefydliadau gofal a'u diogelu rhag i rywrai fanteisio arnynt yn rhywiol
- Adrodd a gweithredu mewn perthynas â thrais domestig.

Prawf Cymru

- Trais domestig a'i effaith ar blant
- Troseddu ar y Rhyngrwyd
- Troseddwyr sydd â phroblemau camddefnydd sylweddau a'u gallu i ofalu am eu plant
- Amddiffyn a diogelu plant troseddwyr - yr holl droseddwyr sydd â chyswllt gyda phlant, nid y rhai a droseddodd yn erbyn plant yn unig


Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Conwy

- Gwella'r broses arenwi plant sydd yn agored i niwed neu risg
- Gwella ymyriad cynnar y gwasanaeth ataliol
- Sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel neu'n cael eu huno gyda'u teuluoedd mewn modd diogel
- Parhau i ddatblygu sgiliau rheolaeth achos a gwneud penderfyniadau

Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych

- Bod teuluoedd sy'n agored i niwed yn darparu sefydlogrwydd a gofal diogel i'w plant
- Bod plant y gofelir amdanynt yn cael eu lleoli gyda theuluoedd sefydlog, parhaol, diogel a chariadus ac yn tyfu i fod yn oedolion annibynnol
- Bod plant sy'n agored i newid yn cael eu diogelu
- Bod plant sydd ag anghenion cymhleth ychwanegol yn gallu byw bywydau mewn teuluoedd sefydlog, diogel a chynhwysol.

.Tabl 1: Gweithredu Amlasiantaeth: Dangosyddion Perfformiad Diogelu Plant									
CYF	Disgrifiad	Amllder	Cyfartaledd Cymru 2010-11	Conwy			Sir Ddinbych		
				2009-10	2010-11	2011-12	2009-10	2010-11	2011-12
			%						
SCC10	Canran y cyfeiriadau sy'n ailgyfeiriadau mewn 12 mis	Blynyddol	28.61	20.6%	18.6%	13.9%	37.5%	38.8%	19.6%
SCC14	Canran y cynadleddau DP a gynhelir o fewn 15 niwrnod i'r drafodaeth strategaeth	Chwarterol	84.99	81.18%	86.3%	89.2%	66.4%	73.2%	98.1%
SCC15	Canran y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd o fewn 10 niwrnod i'r gynhadledd DP gyntaf	Chwarterol	77.35	87.5%	95.7%	90.3%	85.2%	86.2%	89.1%
SCC34	Canran yr adolygiadau diogelu plant a weithredwyd oddi mewn i'r amserlen statudol yn ystod y flwyddyn.	Chwarterol	96.89	99.41%	97.8%	100%	98%	100%	100%



Tabl 3: Data / Dangosyddion Perfformiad y Partneriaid. Gwasanaethau Cymdeithasol Plant

				Conwy			Sir Ddinbych		
CYF	Disgrifiad	Amllder	Cyfaraledd Cymru 2010-11	2009-10	2010-11	2011-12	2009-10	2010-11	2011-12
SCC06	Canran y cyfeiriadau y gwnaed penderfyniad arnynt mewn 1 diwrnod gwaith (cronnus)	Chwarterol	95.4%	59%	96.1%	96.8%	94.5%	95.5%	98.4%
TCC 013 ai	Canran yr achosion agored ar y gofrestr DP gyda gweithiwr cymdeithasol dynodedig	Chwarterol	99.69%	100%	100%	100%	100%	100%	100%
	Cyfanswm yr ychwanegiadau i'r Gofrestr Diogelu Plant yn ystod y flwyddyn o rai oedd ar y rhestr yn flaenorol	Blynyddol	n/a		10	19		23	21

Tabl 4: Data / Dangosyddion Perfformiad Partneriaid. Gwasanaeth Cyfiawnder Plant									
CYF	Disgrifiad	Amllder Adrodd	Cyfartaledd Cymru 2009-10	Cyfartaledd gic 2009-10	Ebrill - Mehefin 2011	Gorffennaf - Medi 2011	Hydref- Rhagfyr 2011	Ionawr – Mawrth 2012	Cronnus Blynyddol 2011-12
YJS1	Nifer y plant yn y ddalfa	chwarterol	112	21	1	4	8	2	15
YJS1a	Graddfa cadw yn y ddalfa: pobl ifanc sy'n derbyn euogfarn llys sy'n arwain at eu cadw'n y ddalfa	chwarterol	Cyfartaledd Cymru 2010-11 5.6%	Cyfartaledd gC 2010-11 3.6%	2.2%	6.8%	15.4%	2.4%	9.26%
YJS2a	Nifer y plant sy'n debygol o fod yn risg i blant eraill: Categori'r risg a) Rhywiol	chwarterol	Heb eu cyhoeddi eto	Heb eu cyhoeddi eto	2	2	2	3	3
YJS2b	Nifer y plant sy'n debygol o fod yn risg i blant eraill: Categori'r risg Trais mewn perthynas â chyfoedion	chwarterol			8	10	10	10	10
YJS2c	Nifer y plant sy'n debygol o fod yn risg i blant eraill: Categori'r risg Esgeulustod baban	chwarterol			0	0	0	0	0
YJS2d	Cyfanswm y plant sy'n debygol o fod yn risg i blant eraill	chwarterol			8	10	10	10	10

	Tabl 5a: Troseddau		DA NC –		SSO		Dioddefwyr			
	DA – Dioddefwyr	Pob	Dioddefwyr	Pob	Dioddefwyr	Pob	VAP Oed 17 ac	Pob	*PPO	Pob 1000
	Oedran 10-17	1000	Oed 10-17	1000	Oed 17 ac is	1000	is	1000		
Conwy	43	4.1	102	9.6	26	1.2	251	11.5	11	0.1
Sir Ddinbych	66	6.9	98	10.2	52	2.6	285	14.4	6	0.1
Cyfanswm 2011/12	109	5.4	200	9.9	78	1.9	536	12.9	17	0.1
Conwy	58	5.5	132	12.5	27	1.2	254	11.6	21	0.2
Sir Ddinbych	58	6.1	137	14.3	45	2.3	284	14.3	14	0.1
Cyfanswm 200/11	116	5.7	269	13.3	72	1.7	538	12.9	35	0.2
% Newid	-6.0%		-25.7%		8.3%		-0.4%		-51.4%	

Bydd data ynghylch plant sydd ar goll ar gael o 2012-13.

**Mae'r data hyn yn cyfeirio at nifer y digwyddiadau gyda GDH*

Tabl 5b Gorchmynion Diogelwch yr Heddlu

**Mae'r data hyn yn cyfeirio at nifer y digwyddiadau gyda GDH, ac nid cyfanswm nifer y GDH. Mae dadansoddiad i'w weld isod::*

Ardal	ALI	Digwyddiadau GDH	Unigolion GDH
Gorllewin	YNYS MÔN	17	1
	GWYNEDD	10	1
Cyfanswm y Gorllewin		27	2
Canol	CONWY	18	0
	SIR DDINBYCH	8	1
Cyfanswm y Canol		26	1
Dwyreiniol	SIR FFLINT	15	2
	WRECSAM	8	6
Cyfanswm y Dwyreiniol		23	8
Cyfanswm yr Heddlu		76	11

Noder:

Ar gyfer dioddefwyr oed 10-17 blwyddyn ym mhob 1000 o'r boblogaeth, mae'r boblogaeth 10-17 wedi ei chymhwyso

Ar gyfer dioddefwyr oed 17 neu lai ym mhob 1000 o'r boblogaeth, mae'r boblogaeth 17 a llai wedi ei chymhwyso


Ar gyfer GDH ym mhob 1000 o'r boblogaeth, mae'r boblogaeth gyfan wedi ei chymhwyso

Cafodd y data poblogaeth eu caffael o Ystadegau Cymru ac maent yn amcangyfrifon canol blwyddyn o 2010

Tabl 6: Data / Dangosyddion Perfformiad y Partneriaid. BCUHB				
Cyf	Disgrifiad	Amllder adrodd	2011-12	
BCU1	Graddfeydd Imiwneiddiad – plant cyn-ysgol	Chwarterol	Gweler isod	
BCU 2	Nifer y cyfeiriadau i MARAC o'r Adrannau Argyfwng	tbc	Dwyrain	76
			Canol	53
			Gorllewin	73

Tudalen 82

Betsi Cadwaladr UHB Summary - COVER101



Crynodeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – TRINIAETH 101

- 5 mewn 1 cynradd erbyn 1b oed [3 dos]
- MenC cynradd erbyn 1b oed [2 dos]
- PCV cynradd erbyn 1 b oed [2 dos]
- MMR erbyn 2b oed [dos 1af]
- PCV erbyn 2b oed [3dd dos]
- Hib/MenC cyfnerthydd erbyn 2b oed
- MMR erbyn 5b oed [ail ddos]
- 4 mewn 1 cyfnerthydd cyn-ysgol erbyn 5b oed [ail ddos]
- MMR [i dos] erbyn 16 b oed
- MMR [2 dos] erbyn 16b oed
- 3 mewn 1 cyfnerthydd erbyn 16b oed

Tabl 7: Data / Dangosyddion Perfformiad Partneriaid – Prawf Cymru (gan gynnwys MAPPA)

CYF	Disgrifiad DANGOSYDDION DRAFFT	Amllder Adrodd	Cyfartaledd Cymru / y DU 2009-10 [Nifer a chanran y troseddwyr]	Cymru 2011-12 [Nifer a chanran y troseddwyr]	Conwy a Sir Ddinbych 2010- 11 [Nifer a chanran y troseddwyr]	Conwy a Sir Ddinbych 2011- 12 [Nifer a chanran y troseddwyr]
PC1	Presenoldeb gan asiantaethau a wahoddwyd i gyfarfodydd lefel 2 a 3, lle mae'r troseddwr dan 18 oed	Chwarterol	Heb fod ar gael	Heb fod ar gael	93%	90%
PC2 (R2.1) ¹	Troseddwyr sydd ar hyn o bryd neu wedi eu rhyddhau, yn debygol o fyw gyda neu fod â chysylltiad rheolaidd gydag unrhyw blentyn sydd ar y gofrestr diogelu plant neu yng ngofal yr awdurdod lleol.	Chwarterol	1506 (8%)	1514 (9%)	104 (9%)	117 (10%)
PC3 (R2.2)	Troseddwyr lle mae unrhyw bryderon mewn perthynas â phlant.	Chwarterol	4666 (26%)	4767 (29%)	327 (28%)	383 (34%)
PC4	Troseddwyr sydd yn risg uchel iawn neu'n risg sylweddol i blant yn y gymuned	Chwarterol	677 (4%)	686 (5%)	50 (5%)	48 (5%)
PC5 (R11.4)	Troseddwyr nad ydynt yn gymwys i weithio gyda phlant	Chwarterol	711 (4%)	729 (4%)	48 (4%)	55 (5%)
PC7 (r11.5)	Troseddwr a droseddodd yn erbyn plentyn	Chwarterol		1365 (12%) ²	Heb fod ar gael hyd yma	114 (14%)
PC8 (R11.6)	Troseddwyr sy'n cynrychioli risg parhaol i blant	Chwarterol		1755 (15%)	Heb fod ar gael hyd yma	182 (22%)
PC9 (R7.1a)	Troseddwyr sy'n cynrychioli risg i blant a arenwyd	Chwarterol	3526 (20%)	3621 (22%)	242 (21%)	274 (24%)
PC10 (R7.1b)	Troseddwyr sy'n rhan o sefyllfa lle mae plant a arenwyd yn cael eu hystyried dan risg gan eraill	Chwarterol	1,119 (6%)	1,157 (7%)	76 (7%)	82 (7%)

Tabl 7: Data / Dangosyddion Perfformiad Partneriaid – Prawf Cymru (gan gynnwys MAPPA)

CYF	Disgrifiad DANGOSYDDION DRAFFT	Amllder Adrodd	Cyfartaledd Cymru / y DU 2009-10 [Nifer a chanran y toseddwyr]	Cymru 2011-12 [Nifer a chanran y toseddwyr]	Conwy a Sir Ddinbych 2010- 11 [Nifer a chanran y toseddwyr]	Conwy a Sir Ddinbych 2011- 12 [Nifer a chanran y toseddwyr]
PC11	Nifer y toseddwyr sydd â phlant wedi eu cofrestru [yn gyfredol[] gyda'r gwasanaethau cymdeithasol	Chwarterol	Heb fod ar gael	Heb fod ar gael hyd yma	Heb fod ar gael hyd yma	260
PC12 (R7.3)	Cynadleddau diogelu plant neu adolygiadau 'plant y gofelir amdanynt' a gynhaliwyd	Chwarterol	1504 (8%)	1489 (9%)	96 (8%)	93 (8%)

¹Mae'r niferoedd mewn cromfachau yn berthnasol i gyfeirnodau Prawf ² Oherwydd problemau cael gafael ar ddata mae'r ffigyrau ar gyfer y dangosydd hwn ar gyfer y cyfnod Ebrill-Rhagfyr yn unig.

Tabl 8 : Data / Dangosyddion Perfformiad Partneriaid - MARAC			
CYF	Disgrifiad	2010-11	2011-12
MARAC 1a	Nifer y plant sy'n byw gydag achosion o drais domestig a gyfeiriwyd i sylw MARAC: Conwy	284	232
MARAC 1b	Nifer y plant sy'n byw gydag achosion o drais domestig a gyfeiriwyd i sylw MARAC: Sir Ddinbych	283	282
	Cyfanswm	567	514

Cyf EHAG	Gweithredu ac Amserlen	Adnoddau	Gan bwy	Cynnydd	Statws RAG
1	EAHG Safon 1 - Mae gan y Bwrdd dealltwriaeth eglur ar y cyd ynghylch pa elfennau ar ddiogelu y mae'n gyfrifol amdanynt a'r rhai y mae'n dal eraill i gyfrif yn eu cylch.				
1a	Gweithredu ac adolygu'r Strategaeth Ddiogelu Gynhwysfawr i Gonwy a Sir Ddinbych (SMG 1) *	Aelodau'r SMG / aelodau'r bartneriaeth gysylltiol	SMG / Aelodau Arweiniol y Bartneriaeth	Erbyn hyn mae'r polisi wedi ei gyflwyno i Fyrddau'r Partneriaethau perthnasol. Llesteirwyd gweithrediad y polisi oherwydd yr anawsterau a wynebwyd wrth geisio cael uwch gynrychiolwyr y partneriaethau perthnasol at ei gilydd. Bellach bydd adolygiad y polisi yn cael ei gynnal yn 2012-13.	AMBR
1b	Parhau i ddatblygu'r templad adroddiad blynyddol. Adolygu i roi sylw i hyrwyddo dealltwriaeth drefniadol a pherchnogaeth cyfraniad yr asiantaeth i waith y BLIDP [EAHG 3], a chryfhau y trefniadau i bartneriaid adrodd am eu rhaglen archwilio fewnol a'u casgliadau EAHG 19) (SMG2)	Amser BM	BM / Archwiliad	Y templad diwygiedig yn cael ei ddefnyddio	GWYRDD
2	EAHG Safon 2 - Mae gan y BLIDP nodau penodol sydd yn amcanu i wella ansawdd diogelwch grwpiau arbennig o blant				
2a	Parhau i ddatblygu gweithgarwch i fynd ymlaen gyda'r blaenoriaethau ar gyfergrwpiau 11-12. (SMG3)	SMG/ is-grwpiau/ aelodau cysylltiol	SMG/ BM	Mae'r gweithgarwch wedi ei symud ymlaen trwy'r is-grwpiau Hyfforddi a Datblygu Ymarfer.	GWYRDD

Cyf EHAG	Gweithredu ac Amserlen	Adnoddau	Gan bwy	Cynnydd	Statws RAG
2ai	Datblygu sgiliau amlasiantaeth i ddelio gydag achosion o ymddygiad rhwyioledig amhriodol. Blaenoriaeth 3 (PD 5)	YJS CAMHS BCUHB Heddlu GC CSDd CBSC	Is-grŵp Datblygiad Ymarfer	<p>Cynhaliwyd y digwyddiad ynghylch Ymddygiad Rhywioledig Amhriodol ar 30 Medi 2011, ac yna cynhaliwyd un ychwanegol ar 16 Mawrth 2012, sef un a ganolbwyntiodd ar ymddygiad amhriodol rhai dan 12 oed..</p> <p>Sefydlwyd Grŵp Tasg ac mae hwnnw wedi adrodd i'r SMG yn ogystal â chyfrannu i'r adolygiad ar Weithdrefn Cymru Gyfan ynghylch Ymddygiad Rhywioledig Amhriodol.</p> <p>Yn sgil yr adroddiad i SMG bydd y grŵp tasg yn parhau yn ystod 2012-13, ac yn adrodd i SMG am fylchau, gwasanaethau a modelau ar gyfer darparu gwasanaethau.</p>	GWYRDD
